# RHEOLI GWASTRAFF YN GYNALADWY

Papur Ymghyngorol

# CRYNOLDEB

**Dysgu byw'n wahanol**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Gorffennaf 2001**

# CYNNWYS

**RHAGAIR** .......... **2**
**CRYNODEB** .......... **4**
Cyflwyniad a Phwrpas .......... 4
Rheoli Gwastraff yng Nghymru .......... 5
Egwyddorion Arweiniol .......... 6
Y Cymhellion .......... 7
Polisïau strategol ar gyfer gwastraff .......... 7
Materion allweddol .......... 9
Cyfleoedd .......... 11
Prif Dargedau .......... 13
Gweithredu .......... 16
Arfarnu canlyniadau tebygol y strategaeth .......... 26
Monitro .......... 32
Adolygiad .......... 33
Sylwadau i gloi .......... 33
**CWESTIYNAU YMGYNGHOROL** .......... **34**
**YMATEB I'R YMGYNGHORIAD** .......... **39**

# RHAGAIR





Bydd archeolegwyr yn dysgu llawer iawn am wareiddiadau cynnar yn aml drwy archwilio eu tomenni gwastraff. Beth fydd archeolegwyr y dyfodol yn ei ddysgu amdanom ni wrth archwilio'n safleoedd claddu gwastraff? Ein bod yn bobl afradlon y bu eu harferion rheoli gwastraff hyd yn hyn yn gweithio'n erbyn eu lles gorau eu hunain. Bydd yn amhosibl iddynt gredu, y gallai pobl - o wybod nad oes cyflenwad di-ben-draw o lawer o ddefnyddiau a bod defnyddio gormod o ynni'n gallu newid yr hinsawdd - barhau i anwybyddu'r ffeithiau hynny a gwastraffu adnoddau.

Mae ein harferion presennol yn anghydnaws â'r ddyletswydd statudol unigryw am hyrwyddo datblygiad cynaladwy a roddwyd ar y Cynulliad Cenedlaethol. Er mwyn sicrhau dyfodol cynaladwy i'n plant, y mae'n rhaid i ni ymdrechu i greu llai o wastraff a rheoli'r gwastraff y byddwn yn ei greu mewn ffordd fwy gyfrifol.

95% o'n holl ysbwriel domestig sy'n cael ei gladdu a gellid ailddefnyddio neu ailgylchu llawer o hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, gellid arbed ynni a helpu'r amgylchedd mewn nifer o ffyrdd eraill drwy ailgylchu defnyddiau – plastig, gwydr, papur, coed, tecstilau, metelau – yn hytrach na defnyddio rhai newydd. Byddwn hefyd yn colli'r cyfle i wella'r gymdeithas a'r economi drwy greu swyddi i ailgylchu defnyddiau a defnyddio'r defnyddiau hynny wedyn. Byddai'r manteision economaidd ac amgylcheddol yn fwy fyth os gallwn greu llai o wastraff yn y lle cyntaf.

Mae'r papur ymgynghorol hwn yn gofyn i chi roi eich sylwadau ar gynigion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Strategaeth Wastraff newydd i Gymru a fydd yn codi statws perfformio Cymru yn Ewrop o'r gwaelod i'r brig. Drwy ddilyn y strategaeth bydd Cymru hefyd yn gallu cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol ac arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd .

Er mwyn iddi lwyddo, bydd yn rhaid i'r Strategaeth newydd gynnwys a chael ei chefnogi gan nifer helaeth o sefydliadau o ddiwydiant, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus a chyrff arbenigol fel ei gilydd, ac yr

ydym eisoes wrthi'n cydweithio'n â nifer o sefydliadau yn y meysydd hyn drwy Fforwm Gwastraff Cymru. Bu gan awdurdodau lleol yng Nghymru gryn law yn natblygiad y strategaeth a bydd ganddynt ran hanfodol bwysig i'w chwarae hefyd o safbwynt ei gweithredu. Ond yn anad dim, bydd y newidiadau angenrheidiol yn effeithio ar bob un ohonom fel unigolion a bydd angen cefnogaeth y cyhoedd, yn enwedig deiliaid tai ar y strategaeth er mwyn iddi fod yn effeithiol. Dyna pam yr ydym yn gobeithio y bydd cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Yn ystyried hyn, bydd rhaid i awdurdodau lleol ar ddatblygiadau o'u strategol gwastraff i ymgynghori yn eang â'u cymundau lleol ar dewis o opsiynau.

Bydd archeolegwyr yn aml yn cael hyd i dystiolaeth o ryw newidiadau sydyn a effeithiodd ar wareiddiadau yn y gorffennol, digwyddiadau sy'n adlewyrchu ffyrdd o fyw a fabwysiadwyd ganddynt dros gyfnodau byr o amser, weithiau o'u gwirfodd ac weithiau oherwydd pwysau o'r tu allan. Mae Strategaeth Wastraff newydd Cymru'n rhoi'r cyfle i sefydlu arferion newydd nid yn unig o safbwynt gwastraff ond hefyd ar raddfa ehangach, ac ennill manteision go iawn i'n cymdeithas a'r amgylchedd. Gobeithio y gellwch gefnogi'r cynigion ac y byddwch yn rhoi'ch sylwadau ar yr opsiynau yn y papur ymgynghorol hwn.

Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC
Prif Weinidog

Sue Essex AC
Gweinidog dros yr Amgylchedd

# CRYNODEB

## Cyflwyniad a Phwrpas

1 Mae Cymru bron ar waelod y cynghrair rheoli gwastraff[1] Ewropeaidd ac mae'n rhaid i bethau wella. Dylem ofyn pam rydym yn cynhyrchu cymaint o wastraff a gwastraffu adnoddau naturiol disbyddadwy o ganlyniad. Rydym hefyd yn colli cyfle economaidd i droi gwastraff anochel yn adnodd a all greu cyfoeth. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i reoli gwastraff mewn ffordd fwy cynaladwy a fydd yn golygu gwaith caled yn ogystal â chyfleoedd newydd. Mae'n ceisio barn pobl ar ei gynigion yn y ddogfen strategaeth wastraff ddrafft[2] a amlinellir yn y Crynodeb hwn. Y nod yw cyflwyno strategaeth wastraff derfynol i Gymru yn lle'r strategaeth bresennol Strategaeth Wastraff 2000 – Cymru a Lloegr, erbyn tymor cyntaf y flwyddyn 2002. Bydd angen i ni barhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn sicrhau bod offerynnau na chawsant eu datganoli, megis y gyfundrefn drethi yn helpu i gefnogi'n strategaeth. Bydd gofyn gweithredu yng Nghymru a chydweithio â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn gweithredu'n strategaeth.

2 Mae'r strategaeth ddrafft i Gymru'n rhestru cynigion ar gyfer rhaglen o newid yn ystod yr ugain mlynedd nesaf a yrrir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cydweithrediad agos â llywodraeth leol a phartneriaid eraill, rhaglen fydd yn gryn her ond eto'n ymarferol. Bydd y strategaeth hon yn troi Cymru oddi wrth ei harfer o orddibynnu ar gladdu fel dull o waredu gwastraff at ddulliau mwy cynaladwy. Hanfod y rhain fydd atal gwastraff lle bo modd a defnyddio gwastraff anochel gymaint ag y bo modd fel adnodd er lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf posibl Cymru, gan ei throi'n batrwm o ddull rheoli gwastraff cynaladwy. Bydd yn gosod fframwaith ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei wneud, gan gynnwys datblygu rhwydwaith cyfannol a digonol o gyfleusterau ar gyfer rheoli gwastraff mewn ffordd gynaladwy. Mae hefyd yn golygu mynd i'r afael ag ysbwriel a rheoli gwastraff yn anghyfreithlon. Rhaid i bawb chwarae rhan yn y gwaith o weithredu'r strategaeth gan gynnwys y cyhoedd. Mae'n bwysig bod y strategaeth yn ymdrechu i fod yn ddigon hyblyg i gynnwys penderfyniadau gan awdurdodau lleol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a sicrhau y bodlonir amryw o rwymedigaethau cyfreithiol ar yr un pryd.

3 Penderfynwyd datblygu strategaeth wastraff ar wahân i Gymru ar ôl i'r Cynulliad addo cynnal adolygiad buan o'r ddogfen Strategaeth Wastraff 2000. Mae hyn yn dangos bod ganddo gyfrifoldebau am bolisi gwastraff fel corff datganoledig. Mae'r Cynulliad am sicrhau bod y strategaeth wastraff i Gymru a lunnir yn sgîl yr ymarfer ymgynghori hwn a dogfen 'Asesiad Rheoli Gwastraff Strategol 2000:Cymru'[3] Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, ill dwy'n cydymffurfio â

[1] Mae'r term 'gwastraff' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at wastraff soled a hylif (gan gynnwys lleidiau) ac eithrio gwastraff a ollyngir yn uniongyrchol i'r awyr neu i ddŵr.

[2] Mae copi o'r ddogfen ymgynghorol lawn ar gael ar wefan y Cynulliad: www.wales.gov.uk. Mae copi caled ar gael oddi wrth David Holbrook yn y Cynulliad (gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon).

[3] Mae Asesiad Rheoli Gwastraff Strategol i Gymru'n cynnwys manylion am achosion o wastraff a rheoli gwastraff yn lleol yng Nghymru (un ai ar lefel isranbarthol neu ardal awdurdod lleol pan fo

deddfwriaeth Prydain a'r UE ar gyfer cynlluniau (neu strategaethau) rheoli gwastraff. Dylai cynlluniau fel y rhain fod yn berthnasol i bob math o wastraff a chynnwys isadrannau penodol am wastraff peryglus, deunydd pecynnu gwastraff a gwastraff biodiraddadwy. Bydd yn rhaid i'r strategaeth fod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer y ddeddfwriaeth sy'n debyg o ddod o Ewrop yn y dyfodol.

4 Cychwynnnwyd ar y broses o lunio strategaeth wastraff ar wahân i Gymru yn Nhachwedd 1999 drwy ddarparu astudiaeth gwmpas. Er mwyn datblygu Strategaeth Wastraff 2000, sefydlodd y Cynulliad yr Uned Cefnogi Polisi Gwastraff yn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Cyhoeddwyd canlyniadau'r astudiaeth gwmpas[4] mewn cynhadledd ym mis Hydref 2000 o dan y teitl "Herio Gwastraff". Yng ngoleuni sylwadau yn y gynhadledd, trafodwyd cynigion rhagarweiniol ar gyfer y strategaeth ym Mhwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn Nhachwedd 2000. Wedyn sefydlodd Gweinidog yr Amgylchedd, Sue Essex, Fforwm Gwastraff Cymru yn Rhagfyr 2000 er mwyn cynghori ynghylch datblygu'r strategaeth wastraff a'r papur ymgynghorol yn benodol. Trafodwyd nifer o agweddau ar y papur ymgynghorol ar wahân hefyd gyda'r prif grwpiau o fudd-deiliaid gan gynnwys cynhyrchwyr gwastraff, llywodraeth leol, y diwydiant gwastraff, y sector ailgylchu cymunedol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

5 Crynodeb o'r prif bapur ymgynghorol yw'r ddogfen hon. Am ei bod yn ddogfen gryno ni all fynd i fanylion na disgrifio pob dewis a gynigiwyd. Er enghraifft, y mae isadrannau pwysig am ddeunydd pecynnu a gwastraff peryglus yn y brif ddogfen nas trafodir yn y crynodeb hwn. Anogir y darllenydd i gyfeirio at y brif ddogfen os bydd angen mwy o fanylion arno. Mae rhestr o'r holl gwestiynau a ofynnwyd yn y brif ddogfen tua diwedd y Crynodeb hwn.

## Rheoli Gwastraff yng Nghymru

6 Cynhyrchir oddeutu 11 miliwn o dunelli o wastraff rheoledig yng Nghymru. Caiff tua 4 miliwn o dunelli eu gwaredu drwy eu claddu[5] (gweler Pennod 2 ac Atodiadau 3 a 4 yn y brif ddogfen am ragor o fanylion). O'r 1.5 miliwn o dunelli o wastraff dinesig a gynhyrchir, 5% yn unig a ailgylchir a chleddir y gweddill. Mae gan Gymru un o'r cyfraddau ailgylchu gwastraff dinesig isaf yn Ewrop.

7 Cynyddodd cyfanswm y gwastraff dinesig a gynhyrchwyd yng Nghymru rhwng 1996/97 a 1998/99 o 6% bob blwyddyn yn bennaf am fod mwy o wastraff masnachol yn cael ei gasglu. Cynyddodd gwastraff domestig o 2% bob blwyddyn yn ystod yr un cyfnod. Serch hynny, am nad oes llawer o ddata blynyddol i'w gael, ni ellir rhagfynegi twf gwastraff ar gyfer y dyfodol yn gwbl

---

hynny'n bosibl). Mae copi ar gael o Gyngor Ailgylchu Cymru drwy ffonio 01793 865000 (pris:£50). Cyn bo hir bydd yn bosibl ei weld ar wefan yr Asiantaeth: www.environment-agency.gov.uk

[4] 'Options for a Welsh Waste Strategy: A Technical Report for the National Assembly for Wales' ECOTEC ac WS Atkins. Medi 2000.

[5] Effeithir ar y darlun gan y 2.8 miliwn o dunelli o wastraff a gynhyrchir gan y diwydiannau puro metel a'u perfformiad eithriadol o safbwynt ailddefnyddio ac ailgylchu eu defnyddiau a'u sgil gynhyrchion gwastraff. Mae hyn yn rhoi darlun rhy ffafriol o ailgylchu mewn diwydiant yn gyffredinol.

hyderus; bydd canlyniadau arolygon gwastraff dinesig y dyfodol yn ein helpu i ddarparu tystiolaeth fwy cadarn o'r tueddiadau hyn.

## Egwyddorion Arweiniol

8 Mae'r Cynulliad yn arddel egwyddorion arweiniol traddodiadol yr Undeb Ewropeaidd wrth reoli gwastraff - sef hierarchaeth wastraff (lle mae atal gwastraff yn brif flaenoriaeth a chladdu gwastraff yn ddewis olaf), y dewis amgylcheddol mwyaf ymarferol (DAMY), y technegau gorau sydd ar gael, y llygrwr sy'n talu, cyfrifoldeb y cynhyrchydd, egwyddor ochelgar, agosrwydd a hunangynhaliaeth (gweler Pennod 3 o'r brif ddogfen am ragor o fanylion). Nid oes unrhyw wrthdaro rhwng yr egwyddorion hyn a'r prif egwyddorion cyffredinol a nodwyd gan y Cynulliad sef:

***Datblygiad cynaladwy***

9 Dylid rheoli gwastraff yng Nghymru'n unol ag egwyddorion datblygiad cynaladwy, sef heb roi gormod o faich cymdeithasol, economaidd nac amgylcheddol ar y genhedlaeth bresennol na chenedlaethau'r dyfodol a chan sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd yn effeithiol, defnyddio adnoddau naturiol yn ddarbodus a chynnal twf economaidd a chyflogaeth uchel a chyson. Y nod yw datgysylltu cynhyrchiant gwastraff o dwf economaidd.

***Ymgynghori a chyfle cyfartal.***

10 Er mwyn sicrhau gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwasanaethu pobl yn well, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddeall mwy am ddymuniadau pobl. Yn hytrach na gorfodi eu hatebion eu hunain ar y cyhoedd, dylai pob lefel ar lywodraeth ymgynghori a chydweithio â phobl. Dylid hefyd ddilyn egwyddor cyfle cyfartal drwy gydol y gwaith o ddatblygu cynlluniau strategaethau gwastraff. Mae'n rhaid cynnwys pob sector o'r boblogaeth o'r cychwyn cyntaf a dylai'r broses annog a galluogi pob cymuned i gymryd rhan ar sail gyfartal drwy ddarparu ar gyfer eu gwahanol anghenion a diddordebau.

***Integreiddio/partneriaeth.***

11 Dulliau gweithredu integredig sy'n debyg o ddod â'r buddion mwyaf am y gost leiaf. Mae llawer o agweddau ar weithredu integredig gan gynnwys:

- cynllunio polisïau a rhaglenni sy'n atgyfnerthu'i gilydd;
- partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol/cymunedol;
- partneriaeth rhwng awdurdodau lleol;
- dewis cyfuniad o ddulliau gweithredu o fewn y hierarchaeth wastraff er mwyn rheoli gwahanol ffrydiau gwastraff yn unol ag egwyddor y Dewis Amgylcheddol Mwyaf Ymarferol;
- Ystyried effaith nwydd ar yr amgylchedd trwy gydol ei gylch bywyd;
- defnyddio amryw o wahanol offerynnau ariannol a chyfreithiol ar lefel y DU i fynd i'r afael â phroblem gwastraff;
- atgyfnerthu'r gweithredu integredig hyn trwy gynlluniau noddi a grantiau.

## Y Cymhellion

12 Datblygir strategaeth wastraff Cymru mewn cyfnod o weddnewid llwyr o safbwynt polisïau a deddfau'n enwedig ar lefel Ewropeaidd. Gan hynny, mae'n bwysig ceisio rhagweld cyfeiriad y newid hwn wrth ddatblygu'r strategaeth a sicrhau ei bod yn ddigon hyblyg i fodloni unrhyw ofynion newydd. (Gweler Pennod 3 o'r brif ddogfen.)

13 O holl gyfarwyddebau'r UE yr un fwyaf arwyddocaol sy'n ysgogi newid yw'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff a'i phrif ofynion yw:

- claddu llawer llai o wastraff dinesig biodiraddadwy (GDB) drwy gyrraedd y targedau canlynol:
  - claddu 75% yn unig o'r GDB a gladdwyd ym 1995 erbyn 2010;
  - claddu 50% yn unig o'r GDB a gladdwyd ym 1995 erbyn 2013;
  - claddu 35% yn unig o'r GDB a gladdwyd ym 1995 erbyn 2020.
- gwahardd yr arfer o gladdu gwastraff cyrydol, ocsidiol, fflamadwy iawn, fflamadwy neu ffrwydrol; gwastraff hylif; gwastraff heintus ysbytai a mathau eraill o wastraff clinigol sefydliadau meddygol neu filfeddygol; a theiars;
- rhoi'r gorau i waredu gwastraff peryglus yn yr un safle â gwastraff nad yw'n beryglus ar ôl 2004;
- trin pob gwastraff cyn ei gladdu.

## Polisïau strategol ar gyfer gwastraff

14 Disgrifir cynigion y Cynulliad ar gyfer polisïau gwastraff strategol ym Mhennod 3 o'r brif ddogfen. Y polisïau allweddol yw:

***Strategaeth a seiliwyd ar atal gwastraff***

15 Cynhyrchu llai o wastraff, yn enwedig gwastraff peryglus, yn ogystal â'i atal rhag cynyddu a ddylai fod yn brif flaenoriaeth yng Nghymru a dylid hefyd ddatgysylltu cynhyrchiant gwastraff o dwf economaidd. Bydd hyn yn golygu cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn aml y tu fewn i fframwaith yr UE.

***Annog didoli mathau o wastraff yn y man cychwyn.***

16 Cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl, dylid didoli defnyddiau gwastraff gan gynnwys gwastraff biodiraddadwy yn y man cychwyn er mwyn:

- lleihau haint;
- cael y gwerth mwyaf o'r deunydd;
- tynnu sylw'r cynhyrchydd (yn enwedig deiliaid tai) at werth y gwastraff sy'n cael ei daflu;
- gwneud y gwastraff yn haws ei drin;
- lleihau'r effaith ar yr amgylchedd
- rhoi cyngor a gwybodaeth i ddeiliaid tai unigol er mwyn gallu defnyddio negeseuon mwy soffistigedig ynglŷn â lleihau gwastraff a sicrhau bod llai o dunelli o wastraff yn cael eu gwaredu o ganlyniad.

Bydd angen gweithio'n agos gyda awdurdodau lleol a'r casgliadau ar wahan o wastraff trefol.

***Datblygu marchnadoedd ailgylchu a chompostio yng Nghymru***

17 Bydd y Cynulliad yn cydweithio â Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau[6] ac eraill i ddatblygu marchnadoedd ailgylchu a chompostio priodol yng Nghymru er mwyn:

- sicrhau bod trefniadau ailgylchu/compostio'n talu'u ffordd yng nghyd-destun cyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff tai, busnesau a diwydiant;
- creu swyddi newydd yng Nghymru;
- lleihau'r niwed y mae cludo defnyddiau i'w hailgylchu yn ei achosi i'r amgylchedd;
- cymryd camau tuag at weithredu llawer o argymhellion adroddiad Sefydliad Materion Cymreig[7] ynglŷn â datblygu marchnadoedd ailgylchu yng Nghymru.

18 Mae'r Cynulliad yn cydnabod mai'r ffordd orau o ddatblygu marchnadoedd sefydlog llwyddiannus ar gyfer gwastraff biodiraddadwy wedi'i gompostio yw sefydlu safonau cydnabyddedig, a fydd yn gymwys i'r DU neu'r UE gyfan os yn bosibl.

***Atebion eraill i'r broblem o reoli gwastraff yn gynaladwy***

19 Blaenoriaeth y Gynulliad i'r eithaf atal gwastraff, ailgylchu a chompostio, ac i leihau llosgi a chladdu gwastraff. Er hynny, Mae'n debyg y bydd lleiafswm gwastraff na fydd modd ei ostwng a fydd angen dulliau rheoli gwahanol oherwydd llygredd gros. O ystyried bod claddu gwastraff ar waelod yr hierarchaeth gwastraff, mae rhesymau cryf dros geisio rheoli y gwastraff gweddilliol hwn yn nes at frig yr hierarchaeth. Mae'r prif enghreifftiau tramor o arferion rheoli gwastraff mwy cynaladwy yn dibynnu ar gymysgedd o ddulliau a thechnolegau gyda ynni o wastraff yn gwneud cyfraniad pwysig at leihau dibyniaeth annerbyniol ar gladdu gwastraff.

20 Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod pobl yn sylweddoli ei bod hi'n bosibl i'r prosesau hyn effeithio ar iechyd. Yn unol â'r egwyddor ragofalus mae'n rhaid ystyried effeithiau posib fel hyn yn drylwyr a'u cymharu â rhai opsiynau eraill, fel rhai agweddau ar gladdu gwastraff, cyn y gellir defnyddio'r prosesau hyn. Mae'n rhaid i ni gofio bob amser nad oes ffordd o reoli a chael gwared ar wastraff heb risg.

21 Rheoleiddir gweithrediad cyfleusterau ynni o wastraff yn ôl y Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (ARhLl). Mae unrhyw gyfleuster gwaredu neu reoli gwastraff, gan gynnwys ffatrïoedd ynni o wastraff, yn amodol ar drwyddedu, monitro a rheoleiddio. Ymgynghorir ag awdurdodau iechyd fel rhan o'r broses o benderfynu cais am ganiatâd ARhLl. Er mwyn derbyn caniatâd, bydd yn rhaid i gyfleusterau ynni o wastraff gwrdd â safonau gollyngiadau caeth a osodir gan Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff y CE, sy'n gymwys i bob technoleg neu broses

[6] Mae Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yn gorff newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU drwy gymorth y llywodraethau datganoledig er mwyn symud y rhwystrau i drefniadau ailgylchu a chreu marchnadoedd sefydlog ac effeithiol ar gyfer defnyddiau a nwyddau a ailgylchir

[7] Gwastraff yng Nghymru – Adnodd Cenedlaethol: Creu Ffyniant trwy Ailgylchu. Sefydliad Materion Cymreig 2000

ynni o wastraff, i ddiogelu iechyd a'r amgylchedd. Mae'r safonau a gyflwynir gan CLIG yn llawer mwy caeth na'r rhai sydd wedi bodoli'n y gorffennol.

22 Os yw cyfanswm y gwastraff a greir yn parhau i gynyddu bydd angen cael gwared ar lawer o wastraff gweddilliol er gwaethaf y gyfradd ailgylchu uchel. Delio â'r gwastraff gweddilliol hwn fydd un o'r materion allweddol y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu trafod wrth ymgynghori â'u cymunedau lleol ynglŷn â'r ffordd ymlaen wrth reoli a chael gwared ar wastraff.

***Cynllunio datblygu ar gyfer creu seilwaith rheoli gwastraff***

23 Yn unol ag egwyddorion cynllunio gofodol, y mae'n rhaid i'r broses cynllunio datblygu sicrhau y datblygir y cyfleusterau iawn ar gyfer trin gwastraff a defnyddiau yn y lle iawn ar yr amser iawn a bod digon o dir ar gael ar eu cyfer.

***Cyfraniad y gymuned.***

24 Dylai cymunedau chwarae rhan ganolog yn y gwaith o sicrhau y gweithredir dulliau cynaladwy o reoli gwastraff. Caiff yr arfer o gynnwys ac ymgynghori â chymunedau lleol ei gymell yn gryf mewn cynlluniau newydd er mwyn sicrhau bod y cymunedau hynny:

- yn deall yr angen am reoli'r gwastraff y maent yn ei gynhyrchu;
- â llais mewn penderfynu sut orau i'w reoli;
- yn manteisio'n ariannol ar unrhyw ddefnyddiau gwerthfawr y maent yn eu hadennill o'u gwastraff.

***Addysg ac ymwybyddiaeth***

25 Bydd addysgu'n rhan bwysig o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am faterion gwastraff er mwyn sicrhau bod pobl yn gwneud penderfyniadau deallus ac yn cymryd cyfrifoldeb yn lleol dros reoli eu defnyddiau gwastraff.

***Polisïau eraill***

26 Polisïau eraill a gynigiwyd yw (gweler Pennod 3 am fwy o fanylion):

- Dylunio nwyddau mewn ffordd ddyfeisgar;
- Ailddefnyddio defnyddiau;
- Sicrhau bod ailgylchu'n elfen allweddol mewn rheoli gwastraff mewn ffordd gynaladwy;
- Sefydlu hierarchaeth rheoli gwastraff biodiraddadwy;
- Cydnabod yr angen parhaus i gladdu gwastraff;
- Dulliau arloesol o reoli gwastraff;
- Trefnu ar lefel ranbarthol;
- Ymdrin ag ysbwriel a phroblem gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon;
- Gwella'r data ar gyfer gwastraff;
- Sicrhau cyllid.

## Materion allweddol

27 Er mwyn rheoli gwastraff dinesig mewn ffordd fwy cynaladwy, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno **cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer casglu defnyddiau i'w hailgylchu a defnyddiau ar gyfer eu compostio ar wahân o ochr y ffordd.** Mae'r Cynulliad o'r farn y byddai partneriaethau rhwng

awdurdodau lleol a'r gymuned a sectorau preifat yn fuddiol. Bydd yn hanfodol bwysig i ddeiliaid tai gymryd rhan frwd a gweithgar yn y cynlluniau hyn.

28 **Mae'n rhaid i bawb gydweithio i atal gwastraff dinesig rhag cynyddu fel mater o flaenoriaeth.** Bydd gofyn gweithio'n eithriadol o galed er mwyn cyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff ynglŷn â chladdu llai o wastraff biodiraddadwy, yn enwedig os bydd cynnydd sylweddol yn y gwastraff a gynhyrchir. Er enghraifft, petai cynnydd o 3% mewn gwastraff dinesig bob blwyddyn, byddai'n rhaid ailgyfeirio tua 1.4 miliwn o dunelli o ddeunydd biodiraddadwy erbyn y flwyddyn 2020. Petai lefel y gwastraff yn aros yr un fath â'r lefel bresennol ni fyddai'n rhaid ailgyfeirio mwy na rhyw 0.6 miliwn o dunelli ohono.

29 Mae'n rhaid i fusnesau yng **Nghymru fabwysiadu polisi'r Cynulliad o leihau gwastraff fel mater o flaenoriaeth**. Er i brosiectau lleihau gwastraff yng Nghymru gychwyn yn dda (gweler Pennod 2 o'r brif ddogfen am grynodeb), y mae lle i fusnesau wneud llawer iawn mwy. Nid nod amgylcheddol yn unig yw lleihau gwastraff; gall hefyd wneud llawer i helpu busnesau i fod yn fwy effeithlon drwy gwtogi ar gostau diangen wrth gynhyrchu a thrwy gynhyrchu mwy. Er enghraifft, nid yw busnesau'n sylweddoli'n aml pa mor fawr yw cost ymdrin â'u gwastraff (gweler Pennod 5 o'r brif ddogfen am fwy o manylion). Mae'r gost hon yn cynrychioli nid yn unig costau gwaredu gwastraff ond hefyd:

- costau prynu defnyddiau crai sy'n mynd yn wastraff;
- gwerth y cynnyrch a wrthodir;
- costau deunydd pecynnu sy'n mynd yn wastraff;
- costau'r ynni a'r adnoddau a ddefnyddir i brosesu defnyddiau sy'n mynd yn wastraff.

30 Gall diwydiant a masnach bwyso a mesur dulliau posibl o leihau gwastraff o adeg dylunio nwydd trwy'r broses gynhyrchu ond hefyd drwy edrych ar y dulliau o'i gludo a'i becynnu a'i adwerthu yn y pendraw. Gellir cynhyrchu nwyddau sy'n parhau am fwy o amser ac y gellir eu hailddefnyddio a'u hailgylchu'n haws, ac sy'n llai tebygol o gael eu taflu. **Mae'n rhaid i fusnesau asesu'r manteision tebygol o gofleidio'r syniad o eco-ddylunio er mwyn dod yn fwy cystadleuol.** Eco-ddylunio yw'r broses o ailddylunio ac ailgynhyrchu nwyddau a gwasanaethau er mwyn gallu eu hailddefnyddio neu'u hailgylchu neu leihau'r effeithiau niweidiol wrth eu dychwelyd i'r amgylchedd a'r broses o ddefnyddio llai i gynhyrchu mwy. Mae hyn yn cwmpasu'r egwyddor 'cyfrifoldeb y cynhyrchydd' sy'n un o brif egwyddorion rheoli gwastraff cynaladwy. Mae'r Cynulliad yn ceisio barn pobl ar gynigion a ddylai fusnesau yn elwa o'u fabwysiadu'r targedau tuag at gadw gwastraff i ifaswm.

31 **Mae'n rhaid i fusnesau yng Nghymru hefyd fod yn barod i dderbyn y cysyniad o Bolisi Cynnyrch Integredig.** Dull cynhyrchu sy'n cael ei ddatblygu gan y Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd yw hwn. Mae'n cychwyn drwy ofyn sut mae gwella perfformiad cynhyrchion o safbwynt yr amgylchedd yn y ffordd fwyaf cost effeithiol. Fe'i seiliwyd ar ystyriaeth o effaith cynhyrchion trwy gydol eu hoes.

32 Mae'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff'n debyg o gael effaith sylweddol ar reoli gwastraff diwydiannol a masnachol yng Nghymru. Mae'n bosibl, er enghraifft, y bydd yn rhaid trin tua 2 filiwn o dunelli o wastraff o dan y Gyfarwyddeb honno. Wrth ystyried hefyd y rheol sy'n gwahardd claddu rhai mathau o wastraff, gallai hyn olygu y bydd yn rhaid i ni gael hyd **i ddulliau eraill o reoli llawer o'r gwastraff a gleddir ar hyn o bryd.** Bydd hyn (ynghyd â chynnydd yn y Dreth Claddu Gwastraff) yn ysgogiad economaidd pellach i gynhyrchwyr gynhyrchu llai o wastraff am ei fod yn ddrutach ei drin mewn ffyrdd amgen.

33 **Er na osodwyd unrhyw dargedau penodol, y mae claddu llai o wastraff diwydiannol a masnachol biodiraddadwy yn un o brif amcanion y Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff.** Y nod yw sicrhau bod llai o fethan yn cael ei ollwng i'r awyrgylch wrth i wastraff biodiraddadwy bydru mewn safleoedd claddu gwastraff am fod methan yn nwy tŷ gwydr cryf. Amcangyfrifir y gellid ailgyfeirio tua 843,000 o dunelli o wastraff diwydiannol a masnachol biodiraddadwy a gleddir ar hyn o bryd, a'u hailddefnyddio, eu hailgylchu, eu compostio, a'u gwaredu drwy broses dreulio anaerobig a'u defnyddio at ddibenion adennill ynni.

34 **Mae gollwng ysbwriel a gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon yn broblemau cyffredin yng Nghymru.** Mae ysbwriel yn salw, yn denu pla, yn gallu niweidio bywyd gwyllt ac yn ddrud ei symud. Mae hefyd yn cael effaith andwyol ar y diwydiant ymwelwyr a buddsoddi mewnol sy'n effeithio yn ei dro ar holl economi Cymru. Mae aml i lythyr ac erthygl mewn papurau lleol yn cwyno am ysbwriel. Hefyd mae gollwng ysbwriel yn anghyfreithlon a gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon a hynny gan bobl yn gweithio'n drefnus yn broblem ddifrifol yng Nghymru a waethygodd i raddau oherwydd y Dreth Claddu Gwastraff am i gludwyr gwastraff diegwyddor gynnig gwasanaethau 'gwaredu gwastraff' rhad i'r rhai oedd yn ei gynhyrchu.

**BLWCH 1 DIRWYON MAWR AM REOLI GWASTRAFF YN ANGHYFREITHLON**

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, cafodd tri chwmni sgipiau yn ne orllewin Cymru ddirwyon o fwy na £63,000 am waredu gwastraff yn anghyfreithlon ar ôl i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ddwyn achosion yn eu herbyn. Yn yr achos diweddaraf cafodd yr unigolion perthnasol £15,000 o ddirwy a gorchymyn iddynt dalu £6,474 o gostau. Bu swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wrthi'n gwylio eiddo'r diffynnydd yn gudd ar ôl i archwiliad o'r awyr ddangos bod llawer iawn o wastraff gan gynnwys coed, plastig, papur, cardbord, gwastraff adeiladu a dymchwel ar gael ar fferm. Roedd y gwastraff yn cael ei arllwys yn anghyfreithlon yn y fan honno a'i losgi'n ddiweddarach. Ymhlith eitemau eraill roedd cryn dipyn o asbestos i'w gael yn y gwastraff hwn. Roedd y gweithgareddau anghyfreithlon hyn wedi arbed miloedd o bunnoedd i'r person dan sylw am ei fod yn osgoi talu costau gwaredu gwastraff cyfreithlon a'r dreth claddu gwastraff. Roedd hyn yn ei dro'n golygu y gallai gynnig cyfraddau rhatach na chwmnïau gwaredu gwastraff eraill a weithredai'n gyfreithlon.

## Cyfleoedd

35 Mae cyfleoedd eithriadol o dda i ddatblygu busnesau a mentrau cymunedol newydd yng Nghymru er mwyn adennill gwerth o ddefnyddiau gwastraff. Mae cynlluniau megis Strategaethau Cymunedol a Chymunedau'n Gyntaf yn rhoi cyfle da i wneud egwyddor rheoli gwastraff cynaladwy'n ganolog ym meddwl cymunedau, nid yn unig o safbwynt adennill gwerth o wastraff a chreu swyddi ond hefyd o ran glanhau'r amgylchedd lleol. Mae cynlluniau ailgylchu a reolir

gan gymunedau yn gallu gweithredu fel canolbwynt i adeiladu ysbryd cymunedau.

**BLWCH 2 ENGHRAIFFT O BROSIECT CASGLIADAU OCHR Y FFORDD A ARIANNWYD GAN GYNLLUN ACHOSION CREDYD Y DRETH CLADDU GWASTRAFF**

Mae Wastesavers Recycling Association (WRA) yn gymdeithas ailgylchu ddielw yng Nghasnewydd, Gwent. Mae'n Gorff Amgylcheddol cofrestredig sy'n rhedeg cynllun casgliadau ochr y ffordd blwch gwyrdd ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd (CBSC). Drwy'r bartneriaeth hon llwyddwyd i wasanaethu 55,000 o drigolion Casnewydd am bum mlynedd drwy redeg prosiect casgliadau ochr y ffordd arbrofol sy'n ymestyn i gynnwys 10,000 o adeiladau ychwanegol bob blwyddyn. Gwasanaethir 20,0000 o adeiladau hyd yn hyn ac ychwanegir 10,000 at ein cronfa ddata'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd WRA yn casglu papurau newydd, cylchgronau, post, pob math o wydr, caniau dur ac alwminiwm, tecstilau, dillad ac esgidiau. Hyd yn hyn, ailgylchwyd mwy na 2,000 o dunelli o ddefnydd a fyddai fel arall wedi cael ei gladdu.

Yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol tuag at hyrwyddo arferion rheoli gwastraff da, y mae'r bartneriaeth yn cynnig swyddi, hyfforddiant a chyfleoedd i wirfoddoli sydd i gyd yn helpu i weithredu'r cynllun llwyddiannus hwn.

36 Mae'r dulliau o reoli gwastraff yn newid yn aruthrol ar hyn o bryd ac er bod mwy o waith nag erioed o'r blaen y mae hefyd yn gyffrous. Mae cystadlu ar raddfa fyd-eang a newidiadau technolegol yn gweddnewid holl faes rheoli gwastraff. Bydd gofyn bod yn arloesol, ac y mae cyfle i fusnesau yng Nghymru ddatblygu arfer gorau ac arwain y maes twf hwn. Gellid creu nifer sylweddol o swyddi drwy sefydlu sector "nwyddau a gwasanaethau" gwastraff brodorol sy'n cynnig nwyddau a gwasanaethau'n lleol a'r tu allan i Gymru. Gallai Cymru arwain arferion rheoli gwastraff cynaladwy.

37 Dyma'r union amser i fuddsoddi mewn lleihau gwastraff, mewn seilwaith newydd ar gyfer rheoli gwastraff a datblygu sector 'nwyddau a gwasanaethau gwastraff' arloesol. Gall Cymru fanteisio ar y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ogystal â nawdd penodol ar gyfer ailgylchu o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Hefyd y mae datganoli'n golygu y gall y Cynulliad bennu ei flaenoriaethau noddi ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau y gweithredir ei bolisïau.

38 Am fod Cymru'n gweithredu o linell sylfaen isel gall fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd o gamgymeriadau mewn mannau eraill ac achub y blaen ar bawb arall. Mae gan Gymru gyfle i sefydlu system rheoli gwastraff integredig gynaladwy yn fuan a chael canlyniadau cyflym. Am fod ganddi gymysgedd o ardaloedd gwledig a threfol, gellid sefydlu systemau compostio a threulio anaerobig a allai drin defnyddiau organig yn effeithiol iawn. Gellid ei gysylltu â'r angen am arallgyfeirio ym myd amaeth a byddai hefyd yn hwb i ddatblygu ffermio organig sydd ar gynnydd ar hyn o bryd. Drwy ddefnyddio compostau organig naturiol, ni fydd cymaint o angen am wrteithiau cemegol, bydd gwell strwythur i'r pridd a bydd y pridd yn gallu cadw mwy o dd_r fel y bo llai o dd_r ffo a llai o lygredd mewn cyrsiau d_r. Gallai Cymru hefyd ddatblygu ei chyfleusterau ei hunan ar gyfer ailbrosesu papur a gwydr ac ystyried ffyrdd o drin defnyddiau eraill ar raddfa fach er mwyn eu hailddefnyddio at anghenion marchnadoedd lleol.

## Prif Dargedau

39 Bydd y Cynulliad yn defnyddio targedau er mwyn gosod cyfeiriad y mae'n rhaid i Gymru symud iddo er mwyn rheoli ei gwastraff mewn ffordd gynaladwy. Mae angen y targedau er mwyn cael darlun eglur o'r hyn y mae'n rhaid ei gyflawni er mwyn gweithredu polisïau gwastraff strategol y Cynulliad a bodloni gofynion deddfwriaeth Ewropeaidd. Fe'u defnyddir hefyd fel meincnod ar gyfer mesur cynnydd. Mewn rhai achosion, cyfyngir ar y cyfle i osod targedau gan ofynion deddfwriaeth y DU a'r UE; mewn achosion eraill, caiff y Cynulliad osod ei dargedau ei hunan. Bydd gofyn am rai targedau penodol iawn a rhai sy'n darparu ar gyfer gweithredu hyblyg ar lefel leol.

40 Rhestrwyd dewis o dargedau ym Mhennod 4. Mae'r prif dargedau dewisol fel a ganlyn:

***Gwastraff dinesig:***

41 Teimla'r Cynulliad fod rhaid ailgylchu a chompostio llawer mwy o wastraff dinesig er mwyn:

- gweithredu ei bolisïau strategol ar gyfer rheoli gwastraff cynaladwy;
- cyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff ar gyfer rheoli mwy o wastraff dinesig biodiraddadwy heb ei gladdu a heb ddibynnu'n ormodol ar brosesau cynhyrchu ynni o wastraff;
- sicrhau bod lefel ailgylchu deunydd pecynnu o'r ffrwd gwastraff dinesig yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gyrraedd targedau Cyfarwyddeb Deunydd Pecynnu'r UE.

42 Gan hynny, mae'r Cynulliad yn argymhell targedau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod cyfraddau ailgylchu a chompostio[8] gwastraff dinesig yn gwella'n sylweddol ar y cyfartaledd bresennol o 5%. Bydd y targedau hyn yn cyd-fynd â mesurau i gyfyngu ar y gyfran o wastraff dinesig sy'n cael ei chladdu (gweler isod). Y targedau dewisol ar gyfer gwastraff dinesig yw:

- erbyn 2003/04 ailgylchu/compostio 15% o wastraff dinesig gan gompostio o leiaf 5% (drwy ddefnyddio compost sy'n deillio o ddefnyddiau a ddidolwyd yn y man cychwyn yn unig) ac ailgylchu o leiaf 5%;
- erbyn 2006/07 ailgylchu/compostio 25% o'r holl wastraff dinesig gan gompostio o leiaf 10% ac ailgylchu o leiaf 10%;
- erbyn 2009/10 ailgylchu/compostio 40% o'r holl wastraff dinesig gan gompostio o leiaf 15% ac ailgylchu o leiaf 15%.

43 Mae gwastraff tai yn aml yn cynnwys gwastraff peryglus (e.e. toddyddion gwastraff, plaleiddiaid, olew, batris ac ati). Mae'n bwysig tynnu cymaint o'r deunydd hwn â phosibl o'r ffrwd gwastraff dinesig cyffredinol er mwyn ei atal rhag effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd ar ôl ei gladdu neu'i losgi. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod gan ddeiliaid tai ffordd arall gyfleus o gael gwared o'r deunydd hwn. Mae'r Cynulliad felly o'r farn y dylai pob safle amwynder dinesig yng Nghymru gynnwys cyfleusterau ar gyfer trin mathau arbennig o wastraff

[8] Gall prosesau treulio anaerobig a mathau eraill o driniaeth fiolegol gyrfannu at gyrraedd y targedau compostio os yw'r Cynulliad yn fodlon ar hynny

domestig peryglus (lle mae'r drwydded wastraff a'r caniatâd cynllunio yn caniatáu). Yng ngoleuni hyn bwriada y targed ychwanegol canlynol:

- erbyn y flwyddyn 2003/04, dylai fod gan bob safle amwynder dinesig gyfleusterau ar gyfer derbyn a storio dalenni asbestos wedi'u rhwymo ac oeryddion, cyn eu gwaredu'n briodol, ac olew, paent, toddyddion a bylbiau fflworoleuol cyn eu hailgylchu.

44 Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried y targedau hyn wrth ddatblygu eu Cytundebau Polisi gyda'r Cynulliad.

45 Er mwyn bodloni gofynion Cyfarwyddeb Claddu Gwastraff y CE ynglŷn â chladdu llai o wastraff dinesig biodiraddadwy, bydd y Cynulliad yn dosbarthu trwydded i bob awdurdod lleol sy'n pennu'r gyfran fwyaf o wastraff dinesig biodiraddadwy y caniateir ei chladdu mewn blwyddyn benodol. Nid yw'r Cynulliad eto wedi penderfynu a ddylid caniatáu cyfnewid y trwyddedau hyn yng Nghymru ai peidio. Mae Pennod 4 o'r brif ddogfen yn ymdrin yn fwy manwl ag amodau posibl dosbarthu'r trwyddedau i bob awdurdod lleol.

46 Rhaid cynhyrchu llai o wastraff domestig a chadw gwastraff domestig rhag cynyddu er mwyn:

- cyfrannu'n sylweddol at yr ymdrech i reoli gwastraff mewn ffordd gynaladwy a chadw yr amgylchedd rhag dirywio ac adnoddau rhag cael eu disbyddu;
- helpu i leihau costau rheoli gwastraff;
- ei gwneud hi'n llawer haws i awdurdodau lleol gyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff a bydd hefyd yn lleihau'r angen am gynhyrchu ynni o wastraff yn sylweddol.

47 Mae llawer o'r ffactorau sy'n rheoli maint y gwastraff y mae deiliaid tai'n ei daflu, ar y cyfan y tu hwnt i reolaeth awdurdodau lleol unigol ac yn wir y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cynulliad mewn llawer o achosion. Gan hynny, ni theimla'r Cynulliad ei bod yn briodol gosod targed lleihau gwastraff ar gyfer awdurdodau lleol yn benodol. Serch hynny, y mae'n disgwyl i awdurdodau lleol helpu i annog deiliaid tai i gynhyrchu llai o wastraff ac mae'n eu hannog i osod targed lleihau gwastraff y tu fewn i'w darpariaethau Gwerth Gorau. Er enghraifft, gall awdurdodau lleol hyrwyddo compostio cartref fel ffordd o leihau cyfanswm y gwastraff tai biodiraddadwy y mae'n rhaid iddynt ei gasglu a'i drin.

**BLWCH 3 YMCHWILIO I GOMPOSTIO FFIBR UCHEL YN Y GANOLFAN DECHNOLEG AMGEN**

Ail flwyddyn yr ymchwil i gompostio FFIBR UCHEL yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen yw hon a ariennir gan Gyngor Sir Powys drwy Gynllun Credyd y Dreth Claddu Gwastraff, Cronfa Amgylcheddol Hanson a ffermwyr lleol.

Mae compostio ffibr uchel yn cynnwys papur a chardbord anailgylchadwy yn y broses gompostio gan leihau gwastraff domestig o 50% a gwella'r compost ar yr un pryd. Dengys ymchwil y Ganolfan Dechnoleg y gallai deiliaid tai sy'n meddu ar ardd leihau eu gwastraff domestig o hyd at 90% drwy gyfuno'r broses hon â gweithgareddau eraill. Bydd y prosiect yn trefnu i gynghorydd compostio weithio gyda 65 o aelwydydd lleol ac yn sicrhau bod y canlyniadau ar gael i'r cyhoedd.

48 Ym marn y Cynulliad, gosod targedau fyddai'r cam cyntaf pwysig tuag at sicrhau y gweithredir ar bob lefel briodol i leihau cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei greu yn y dechrau ac wedyn ei leihau. Bydd y Cynulliad yn ceisio cyrraedd y targedau hyn drwy gydweithio â Llywodraeth y DU, yr Undeb Ewropeaidd, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn dylanwadu ar y ffactorau sy'n rheoli faint o wastraff domestig sy'n cael ei gynhyrchu. Er enghraifft, y mae angen cymryd camau i ddylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr a deiliaid tai a cheisio newid arferion adwerthu, nwyddau defnyddwyr ac arferion pecynnu.

49 Mae'r Cynulliad yn cynnig y targed mwya poblogaidd:

- erbyn 2009/10 (ac ar ôl hynny) ni ddylai'r gwastraff fesul tŷ fod yn fwy nag yn ystod 1997/98.

***Targed cadw gwastraff i isafswm i'r sector cyhoeddus***

50 Y sector cyhoeddus yw'r nawfed ffynhonnell gwastraff fwyaf o blith diwydiant a masnach. Dymuna'r Cynulliad weld cynhyrchu gwastraff yn y sector cyhoeddus wedi ei leihau i gynorthwyo i gwtogi ar wariant cyhoeddus yn awr a chan ragdybio cynnydd yn y dyfodol yn y gost o waredu gwastraff. Mae'r Cynulliad, felly, yn nodi a'r sector cyhoeddus y darget ychwanegol ac yn annog busnesau i ystyried y targedau mwya poblogaidd fel argymhellir yn paragraff 52 isod:

- erbyn 2005 cwtogi ar faint o wastraff a gynhyrchir i 95% o'r hyn a gynhyrchwyd ym 1998;
- erbyn 2010 cwtogi ar faint y gwastraff a gynhyrchir i 90% o'r hyn a gynhyrchwyd ym 1998.

***Gwastraff diwydiannol a masnachol***

51 Ym marn y Cynulliad byddai'n fuddiol gosod targed lleihau gwastraff diwydiannol a masnachol am y rhesymau canlynol:

- byddai'n dangos ymrwymiad eglur i flaenoriaeth bwysicaf Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE;
- gwastraff diwydiannol a masnachol (gan gynnwys gwastraff adeiladu a dymchwel) yw 88% o bob gwastraff rheoledig;
- byddai'n ffon fesur ar gyfer perfformiad ac effeithiolrwydd cynlluniau lleihau gwastraff a ariennir o bwrs y wlad (mae'r Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth y DU a'r Cynulliad yn darparu nawdd sylweddol i helpu busnesau i atal a lleihau eu gwastraff – gweler Pennod 2 am y cynlluniau presennol a Phennod 5 am gynlluniau newydd sbon);
- byddai'n ysgogiad i fusnesau na wnaethant unrhyw gynlluniau hyd yn hyn i leihau'u gwastraff;
- drwy atal gwastraff/cynhyrchu llai o wastraff, bydd busnesau'n arbed arian ac yn dod yn fwy cystadleuol am eu bod yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol;
- byddai'n gam mawr tuag at weithredu prif egwyddor datblygiad cynaladwy sef arbed adnoddau.

52 Y busnesau unigol fydd yn gyfrifol am benderfynu a fyddant yn mabwysiadu targed ar gyfer lleihau gwastraff ai peidio. Serch hynny, cynigir y targedau canlynol ar gyfer busnesau fel sail i'r ymgynghoriad hwn:

- erbyn 2005 lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan fusnesau yng Nghymru o 5% o'r ffigwr ar gyfer 1998;

- erbyn 2010 lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan fusnesau yng Nghymru o 10% o'r ffigwr ar gyfer 1998;
- erbyn 2005 lleihau'r gwastraff diwydiannol a masnachol a gleddir i 85% o'r hyn a gladdwyd ym 1998;
- erbyn 2010 lleihau'r gwastraff diwydiannol a masnachol a gleddir i 80% o'r hyn a gladdwyd ym 1998;
- erbyn 2005 lleihau'r gwastraff diwydiannol a masnachol biodiraddadwy a gleddir i 85% o'r hyn a gladdwyd ym 1998;
- erbyn 2010 lleihau'r gwastraff diwydiannol a masnachol biodiraddadwy a gleddir i 80% o'r hyn a gladdwyd ym 1998;
- erbyn 2020 lleihau'r gwastraff peryglus o 20% erbyn 2010 o'i gymharu â'r flwyddyn 2000 ac oddeutu 50%.

## Gweithredu

53 Mae cynigion ym Mhennod 5 o'r brif ddogfen ar gyfer cynllun gweithredu i weithredu'r polisïau, y targedau a'r offerynnau a nodwyd ym Mhenodau 3 a 4. Rhennir y cynllun gweithredu arfaethedig yn nifer o flaenoriaethau allweddol sef:

- Rheoli adnoddau cynaladwy;
- Datblygu seilwaith;
- Addysg a marchnata'r strategaeth;
- Gwella'n dealltwriaeth;
- Gwell rheolau a gorfodi rheolau'n fwy effeithiol;
- Arweiniad/ymgynghoriad effeithiol.

***Rheoli adnoddau cynaladwy***

54 Er mwyn gweithredu mewn ffordd gynaladwy, y mae'n rhaid i ni reoli adnoddau'n effeithiol a defnyddio a gwastraffu cyn lleied â phosibl. Mae'n rhaid i ni hefyd adennill ac ailddefnyddio unrhyw adnoddau sydd i'w cael yn y gwastraff a gynhyrchwn.

Nawdd

55 Mae'r Cynulliad yn cydnabod y bydd gweithredu strategaeth wastraff Cymru a'r Cyfarwyddebau Ewropeaidd perthnasol yn golygu costau ychwanegol i awdurdodau lleol ac eraill. Mae nifer o wahanol gynlluniau noddi y tu fewn i'r Cynulliad ac mewn mannau eraill y gellir eu defnyddio, gan gynnwys:

- Asesiad Gwariant Cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol;
- Grantiau Gwella Perfformiad Gwerth Gorau i awdurdodau lleol;
- nawdd ychwanegol ar gyfer ailgylchu a chompostio gwastraff dinesig;
- Cronfa Cyfleoedd Newydd;
- Cynllun Credyd y Dreth Claddu Gwastraff;
- rhaglenni Amcan 1 ac Amcan 2 y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i Gymru;
- Menter Cyllid Preifat;
- Menter Technolegau Cynaladwy (dan nawdd yr Adran Diwydiant a Masnach a'r EPSRC);
- Cymorthdaliadau Rhanbarthol Dethol (o'r Cynulliad);
- SmartWales.

56 Er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r strategaeth ymhellach a chyrraedd y targedau a gynigiwyd ar gyfer ailgylchu a chompostio, bydd y Cynulliad yn darparu £40m yn ychwanegol yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae £3 miliwn ar gael ar gyfer 2001/02 a'r ffigyrau mynegol ar gyfer 2002/03 a 2003/04 yw £13 miliwn a £24 miliwn. Yn 2001/02 dosberthir y nawdd fel a ganlyn:

- £1.5 miliwn i helpu awdurdodau lleol Cymru i ddatblygu cynlluniau ailgylchu/compostio (fe'i rhennir ar sail fformiwla fel rhan o raglen dair blynedd);
- £500,000 i noddi dadansoddiad o gynnwys gwastraff dinesig;
- £650,000 i Brosiect Asiantaeth Ailgylchu Cymru a phrosiectau eraill cysylltiedig sy'n ceisio datblygu marchnad yng Nghymru ar gyfer nwyddau a ailgylchwyd;
- £100,000 i noddi Grwpiau Cynllunio Gwastraff Rhanbarthol;
- £200,000 i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn cefnogi ei gwaith o ymchwilio i weithrediadau rheoli gwastraff anghyfreithlon;
- £50,000 i'w wario ar agweddau eraill ar wastraff yng Nghymru.

Mae'n debyg y bydd y ffigyrau nawdd mynegol ar gyfer cynlluniau ailgylchu/compostio o dan awdurdodau lleol tuag £11 miliwn yn 2002/03 a £22 miliwn yn 2003/04.

57 Un o gyrff dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yw'r Gronfa Cyfleoedd Newydd sy'n gyfrifol am noddi prosiectau iechyd ac addysg a phrosiectau amgylcheddol sy'n helpu i wella ansawdd bywyd yn barhaol, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. Yn ôl ei chyfarwyddiadau polisi diweddaraf, erbyn 2004 y mae disgwyl iddi neilltuo £6.5m (gan gynnwys costau gweinyddol) ar gyfer prosiectau yng Nghymru sy'n:

- gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau lleol;
- ehangu'r arfer o ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff yn y gymuned.

Rhennir yr arian yn gyfartal rhwng y ddau nod hwn.

<u>Gwastraff dinesig</u>

58 Ym Mhennod 5, cynigir camau gweithredu penodol i annog deiliaid tai i gynhyrchu llai o wastraff a galluogi awdurdodau lleol i gyrraedd y targedau ailgylchu a chompostio.

59 Gall deiliaid tai roi llawer llai o wastraff domestig yn y bin sbwriel. Dyma rai pethau y gellid eu gwneud:

- prynu dim ond yr hyn sydd ei angen o rai mathau o nwyddau – os prynir gormod ohonynt caiff defnyddiau gwastraff eu cynhyrchu a chaiff adnoddau eu gwastraffu (e.e. nwyddau DIY; eitemau pydradwy);
- peidio â phrynu nwyddau i'w taflu, er enghraifft, raseli plastig, platiau papur, dwsteri a macynnau parod ac ati;
- prynu nwyddau sydd wedi'u pecynnu'n synhwyrol a chynnyrch rhydd pan fo hynny'n ymarferol;
- ailddefnyddio yr un bagiau siopa pan fyddant yn ymweld â'r archfarchnad yn hytrach na chymryd rhai plastig newydd bob tro;

- peidio â derbyn post diangen a fydd yn cael ei daflu fel rhan o'r gwastraff domestig drwy gofrestru gyda'r Gwasanaeth Dewis Post[9];
- gwneud eu compost eu hunan am y gall hyn helpu gryn dipyn i leihau gwastraff;
- rhoi nwyddau na fyddant yn eu defnyddio i grwpiau cymunedol, siopau elusen ac eraill.

60 Mae'r ffrwd gwastraff dinesig yn cynnwys llawer iawn o ddefnyddiau y gallai awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'r sector ailgylchu cymunedol a'r diwydiant gwastraff eu hailgylchu neu'u compostio. Gellid arbed gwydr, papur, dur, alwminiwm, tecstilau, plastigau, dodrefn a chyfarpar trydanol rhag cael eu claddu a'u defnyddio i gynhyrchu refeniw a gellid defnyddio cerdyn a gwastraff biodiraddadwy arall i wneud compost. Mae'r Cynulliad am hyrwyddo'r arfer o ailgylchu a throi defnyddiau'n gompost drwy gymryd y camau canlynol yn nhrefn blaenoriaeth:

- casgliadau ochr y ffordd ac unrhyw Gyfleusterau ar gyfer Adennill Defnyddiau 'glân' sy'n gysylltiedig â hwy;
- safleoedd gadael gwastraff a chanolfannau ailgylchu;
- defnyddio cyfleusterau adfer defnyddiau 'brwnt' i adennill deunydd o wastraff dinesig (dylid defnyddio'r rhain pan fyddant yn ychwanegu at nodweddion y deunydd a adferwyd yn unig ac nid yn lle dulliau eraill o adfer deunydd)

**BLWCH 4 CYNLLUN CASGLIADAU OCHR Y FFORDD YNG NGHAERFFILI**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili oedd un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio nawdd Cynllun Credyd y Dreth Claddu Gwastraff i arbrofi gyda chynllun addysgu ac ailgylchu ochr y ffordd. Gweithredir y cynllun drwy gydgymorth Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfffili ac Ecovert.

Roedd deiliaid tai'n didoli'r defnyddiau, eu rhoi mewn bagiau neges a'u gadael mewn blwch gwyrdd 53 litr ar ochr y ffordd, a'r tîm casglu'n eu trosglwyddo wedyn i gerbyd pwrpasol heb gyfarpar cywasgu unwaith bob pythefnos. Roedd Swyddog Addysg ac Ymchwil Amgylcheddol wrth law i roi gwybodaeth a chyngor i ddeiliaid tai.

Ar y dechrau, roedd y prosiect yn ymdrin ag 8,000 o dai ar draws y Fwrdeistref a chynhwysai 8,000 yn ychwanegol rhwng Ionawr ac Awst 2000. Yn ystod y flwyddyn 2000/01, cafodd tua 1,000 o dunelli o ddeunydd ailgylchedig ei arbed rhag ei gladdu.

Bu'r ymgyrch ailgylchu hefyd yn targedu ysgolion drwy gynnal cystadleuaeth gelf er mwyn dewis lluniau ar gyfer taflenni cyhoeddusrwydd a chystadleuaeth i wobrwyo ysgolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth casglu amlaf.

**BLWCH 5 GWASANAETH AILGYLCHU GWYNEDD**

Mae Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd yn gr_p cymunedol a sefydlwyd ym 1994 er mwyn gwella cyfraddau ailgylchu a rhoi cyfleoedd gwerthfawr i bobl leol (yn enwedig rhai ag anawsterau dysgu) feithrin eu sgiliau a'u gallu i gael gwaith. Bydd yr awdurdod lleol ar y cyd â chwmni gwastraff preifat yn casglu defnyddio ailgylchadwy o 30 o safleoedd gadael defnydd ar draws Gwynedd. Cynhelir hefyd wasanaeth casglu, adnewyddu ac ailddefnyddio nwyddau gwyn a dodrefn. Cafodd y cynllun £220,000 o'r Loteri Genedlaethol ar gyfer cynnal prosiectau papur swyddfa a gwastraff domestig swmpus.
Ffynhonnell: "Recycling in Action – Leading case studies across England and Wales". Cyfeillion y Ddaear. 2001

[9] Gwasanaeth Dewis Post – Mailing Preference Service, Department AM, Rhadbost 22, Llundain, W1E 7EZ. Gellwch gofrestru manylion gyda'r gwasanaeth hwn drwy ffonio 0845 0700707 a gellwch gofrestru ar-lein drwy ymweld â mps@dma.org.uk

61 Mae'r Cynulliad o'r farn fod cyfleon i awdurdodau lleol sicrhau bod llawer mwy o'r deunydd a adewir mewn safleoedd amwynder dinesig yn cael ei ddidoli er mwyn ei ailgylchu a'i droi'n gompost. Mae'r arfer gorau presennol yn awgrymu bod cymaint â 50% neu hyd yn oed 80% o'r gwastraff y bydd deiliaid tai'n ei adael yn y safleoedd hyn yn addas ac yn hawdd ei ddidoli at y diben hwnnw. Gellid gwella'r sefyllfa drwy drefnu i ddeiliaid tai sy'n dod â gwastraff gael eu gorchwylio'n well ar y safle, trwy hwyluso'r ffordd i bobl ddefnyddio'r banciau ailgylchu (e.e. gosod gwell arwyddion) a rhoi anogaeth i'r staff neu'r cwmnïau sy'n gweithredu'r safleoedd ailgylchu a chompostio mwy o ddeunydd.

**BLWCH 6 ENGHRAIFFT O GYFRADD AILGYLCHU UCHEL AR SAFLE AMWYNDER DINESIG YN Y TRALLWNG, POWYS**

Mae Cyngor Sir Powys wedi mabwysiadu polisi i ddatblygu wyth safle amwynder dinesig newydd yn unswydd ar gyfer ailgylchu. Agorodd y safle cyntaf yn y Trallwng yn y flwyddyn 2000 o dan gontract rhwng y Cyngor a chwmni lleol. Ailgylchu cymaint o ddeunydd â phosibl yw nod y safle a bydd yn gweithredu ar yr amod bod yn rhaid ailgylchu o leiaf 60% o'r deunydd a adewir. Ar hyn o bryd, y mae'r safle'n ailgylchu 80% o'i holl wastraff swmpus ac y mae'n bosibl mai dyma'r perfformiad gorau gan unrhyw safle yn y DU. Mae'r safle hefyd yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer derbyn a storio amryw o wahanol fathau o wastraff domestig megis tiwbiau fflworolau, olew, cemegau domestig, batris moduron a gwastraff peryglus gan gynnwys: dalenni asbestos wedi'u rhwymo ac oeryddion.

62 Mae'r Cynulliad yn cynnig y dylai awdurdodau lleol weithredu fesul cam er mwyn cyrraedd y targedau compostio arfaethedig. Gallant gyrraedd y targed o 5% a gynigiwyd ar gyfer 2003/04 drwy gasglu gwastraff gwyrdd ar wahân o ochr y ffordd, o safleoedd amwynder dinesig ac o'u ffynonellau dinesig eu hunain. Gellid troi'r gwastraff gwyrdd hwn yn gompost wedyn drwy ddefnyddio techneg 'ffenestr agored' rad, er enghraifft, sy'n cynhyrchu compost o safon uchel. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gychwyn cynlluniau i gasglu gwastraff cegin ar wahân o dai er mwyn cyrraedd y targedau o 10% a 15% ar gyfer 2006/07 a 2009/10. Gall awdurdodau fanteisio ar eu profiad o gasglu gwastraff gwyrdd a'i droi'n gompost sy'n addas ar gyfer y farchnad wrth reoli gwastraff cegin sy'n fwy anodd ei drin. Ar y dechrau, dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar fodloni eu hanghenion eu hunain am gompost e.e. mewn parciau.

**BLWCH 7. CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY, ENGHRAIFFT O BERFFORMIAD COMPOSTIO DA**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n gweithredu cynllun compostio canolog ar gyfer gwastraff o safleoedd amwynder dinesig, canolfannau cynnal a chadw tir a'r safle adennill defnyddiau dinesig. Yn ystod 1999-2000, cafodd 11,630 o dunelli o wastraff gan gynnwys porfa wedi'i thorri a'i chasglu, dail a gwastraff gwyrdd wedi'i chwalu, ei droi'n gompost ar y safle, gan arbed costau gwaredu a chreu cyfle i wneud elw wrth ei ailwerthu. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd gompostio dinesig o 13%.

<u>Gwastraff diwydiannol a masnachol</u>

63 Mae'r Cynulliad yn cymryd y camau canlynol i helpu busnesau i weithredu'n benodol i gynhyrchu llai o wastraff:

- sicrhau bod cyfran briodol o nawdd rhaglen DU Envirowise[10.] - sy'n cynnig cyngor ymarferol am ddim a chanllawiau ar gyfer lleihau gwastraff - yn cael ei wario yng Nghymru;
- darparu £0.2 miliwn o nawdd punt am bunt o'r £3.2 miliwn ar gyfer prosiect Amcan 1 Rhwydwaith Arena/Groundwork yng Nghymru 'Environmental Innovation and Competitiveness' (Arloesi ac Ysbryd Cystadlu Amgylcheddol) er mwyn ariannu cynlluniau rheoli amgylcheddol ar gyfer busnesau bach a chanolig;
- rhoi £0.3 miliwn i'r WDA i gefnogi cynlluniau rheoli amgylcheddol ar gyfer busnesau mawr yn ardal Amcan 1 a busnesau o bob math yng ngweddill Cymru;
- ar y cyd â phartneriaid eraill, noddi rhaglen seminarau fawr sy'n trafod pynciau amgylcheddol sy'n berthnasol i fusnesau, a chynnal cynhadledd fawr ar fusnes a'r amgylchedd yn Hydref 2001;
- parhau â'i ymgyrch Busnes a'r Amgylchedd;
- gweithredu'n gyffredinol i godi ymwybyddiaeth e.e. drwy erthyglau yn y cyfryngau;
- ystyried sut orau i gydlynu'r gwaith o gynghori busnesau yng Nghymru ynghylch cynhyrchu llai o wastraff;
- ystyried arwain ymgyrch lleihau gwastraff ar gyfer y sector cyhoeddus.

64 Cyflwynir cynigion ym Mhennod 5 ar gyfer gwella ffyrdd o gydlynu a thargedu'r gwaith o gynghori busnesau yng Nghymru ynghylch cynhyrchu llai o wastraff. Dylid rhoi blaenoriaeth i gynhyrchu llai o wastraff peryglus, biodiraddadwy a deunydd pecynnu'n benodol.

<u>Datblygu marchnadoedd ailgylchu</u>

65 Mae'r Cynulliad yn cydariannu Rhaglen Weithredu'r DU ar gyfer Gwastraff ac Adnoddau sy'n sefydliad newydd sbon a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU drwy gymorth y llywodraethau datganoledig. Helpu i gael gwared ar ffactorau sy'n rhwystro ailgylchu a chreu marchnadoedd sefydlog ac effeithlon ar gyfer defnyddiau a nwyddau ailgylchedig, yw ei nod. Bydd yn ceisio adennill cymaint o ddeunydd â phosibl a chael y gwerth uchaf posibl o ffrydiau gwastraff Prydain. Mae'r Cynulliad yn rhoi rhagor o nawdd er mwyn hyrwyddo gwaith y Rhaglen hon yng Nghymru a chefnogi prosiectau yng Nghymru sy'n datblygu marchnadoedd ar gyfer nwyddau wedi'u hailgylchu.

***Datblygu seilwaith***

66 Un o brif nodau strategaeth wastraff Cymru yw sicrhau bod seilwaith o sefydliadau rheoli gwastraff integredig a digonol yn cael ei sefydlu, ac y mae dyletswydd statudol ar y Cynulliad i wneud hynny o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE. Mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i ddarparu ar gyfer seilwaith o'r math hwn yn eu Cynlluniau Datblygu Unedol o dan ddeddfwriaeth y DU[11].

---

[10.] Gellir cysylltu ag Envirowise drwy ffonio 0800 585794; e-bost: helpline@envirowise.gov.uk; gwefan: www.envirowise.gov.uk

[11] Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994

**BLWCH 8 ENGHREIFFTIAU O GYNLLUNIAU AILGYLCHU GWYDR NEWYDD YNG NGHYMRU**

Mae Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru a chwmni Conway Concrete Products Cyf. wedi sefydlu partneriaeth ar gyfer defnyddio deunydd gwydr wedi'i ailgylchu. Y cwmni hwn sy'n gyfrifol am gynhyrchu llawer o nwyddau concrît yn Ne Cymru megis blociau palmant ac mae angen mawr am agregau mathredig arnynt. Penderfynwyd ei bod yn bosibl defnyddio gwydr chwilfriw wedi'i ailgylchu yn lle deunydd crai yn y broses gynhyrchu. Y gobaith yw y bydd cyfleustra gweithredol ar safle Caerleon erbyn canol y flwyddyn 2001 ac y mae disgwyl iddo broses o leiaf 30,000 o dunelli o wydr yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Bu Rhwydwaith Arena'n helpu cwmni Richardson Cyf. i sefydlu storfa a ffatri ailbrosesu gwydr wedi'i ailgylchu yn Ne Cymru er mwyn cyflenwi cwmni Owens Corning sy'n un o brif gynhyrchwyr gwydr ffibr. Mae disgwyl i'r ffatri gychwyn ar ei gwaith yn ystod y deuddeng mis nesaf a threfnwyd iddi brosesu tua 30,000 o dunelli o wydr wedi'i ailgylchu y flwyddyn ar y dechrau.

67 Bydd y newidiadau mawr mewn arferion rheoli gwastraff a gynigiwyd gan y Cynulliad dan anogaeth Ewrop, yn gofyn am newid gryn dipyn ar y seilwaith sydd ei angen i reoli gwastraff yng Nghymru. Er mwyn gallu mynd i'r afael â'r her hon a sawl her arall, y mae'r Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn adolygu polisïau cynllunio ar gyfer Cymru; lluniwyd y cynigion diweddaraf yn nogfen ddrafft "Polisi Cynllunio Cymru" ar yr un pryd â datblygu strategaeth wastraff Cymru. Mae'r polisïau cynllunio gwastraff hyn hefyd yn cynnwys Nodyn Cyngor Technegol ynglŷn â gwastraff a fu'n destun ymgynghori'n ddiweddar. Roedd y papur ymgynghorol yn cynnwys argymhellion ynglŷn â sefydlu Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol. Mae'r Cynulliad hefyd yn argymell bod awdurdodau lleol un ai'n nodi safleoedd ar gyfer sefydlu cyfleusterau newydd neu ardaloedd archwilio yn eu Cynlluniau Datblygu Unedol.

<u>Cyfleusterau ar gyfer gwastraff dinesig</u>

68 Mae Tabl 1 yn crynhoi'r gwaith paratoi i bennu nifer y cyfleusterau newydd sy'n debyg o fod yn angenrheidiol er mwyn cyrraedd targedau, ailgylchu a chompostio a chladdu ar gyfer gwastraff dinesig.

**Tabl 1. Nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff sydd eu hangen er mwyn cyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff a thargedau ailgylchu/compostio o 40% o'r flwyddyn 2010 ymlaen**

| Blwyddyn | 2010 | 2013 | 2020 |
|---|---|---|---|
| Nifer y cyfleusterau adennill defnyddiau (30,000t) | 20-27 | 20-34 | 20-39 |
| Nifer y cyfleusterau compostio (20,000t) | 11-16 | 11-18 | 11-22 |
| Nifer y cyfleusterau cynhyrchu ynni o wastraff (100,000t) | 0 | 0-4 | 3-9 |

<u>Cyfleusterau ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol</u>

69 Mae'n bosibl y bydd angen datblygu nifer sylweddol o gyfleusterau rheoli gwastraff newydd er mwyn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff ynglŷn â thrin gwastraff cyn ei gladdu, gwahardd claddu mathau arbennig o wastraff a gwahardd gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus ar yr un safle, gan gynnwys:

- llawer mwy o gyfleusterau adennill defnyddiau;

- gweithfeydd trin gwastraff biolegol (e.e. compostio, prosesau treulio anaerobig) er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y targed arfaethedig o ran claddu llai o wastraff diwydiannol a masnachol biodiraddadwy;
- mwy o orsafoedd trosglwyddo;
- mwy o weithfeydd gwasgu/didoli (e.e. ar gyfer gwastraff dymchwel a defnyddiau cloddiedig);
- nifer fach o gyfleusterau adennill ynni (e.e. drwy losgi, nwyeiddio, pyrolysis, cynhyrchu tanwydd o ysbwriel ac ati);
- cyfleusterau i reoli'r 233,000 o dunelli o wastraff arbennig sydd fel arfer yn cael eu claddu (a bwrw na fydd llawer o safleoedd claddu gwastraff peryglus ar ôl yng Nghymru ar ôl 2004);
- mwy o weithfeydd trin gwastraff (bydd rhyw 2.4 miliwn o dunelli o wastraff diwydiannol a masnachol yng Nghymru'n cael ei gladdu a bydd gofyn trin y rhan fwyaf o'r gwastraff hwn o dan y Gyfarwyddeb);
- bydd yn rhaid cael hyd i ddulliau eraill o reoli:
  - y 6600 o dunelli o deiars a gleddir yng Nghymru ar hyn o bryd;
  - y 70,000 o dunelli o wastraff cyrydol a gladdwyd ym 1998/99;
  - y 750 o dunelli o doddyddion a gladdwyd ym 1998/99;
- bydd angen nifer fach o safleoedd claddu gwastraff peryglus (bydd angen o leiaf un yn y de ac un yn y gogledd er mwyn cydymffurfio ag egwyddor agosrwydd);
- bydd angen safleoedd claddu gwastraff o hyd ar gyfer gwastraff dinesig gweddilliol a gwastraff diwydiannol a masnachol a driniwyd eisoes (gweler isod).

<u>Yr angen am safleoedd claddu gwastraff</u>

70 Dadansoddwyd y gofynion claddu gwastraff posibl o ddau safbwynt gwahanol – sef safbwynt optimistaidd sy'n rhagweld y cyrhaeddir pob targed; a safbwynt pesimistaidd sy'n rhagweld na chyrhaeddir yr un targed ar wahân i dargedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff a'r targedau ailgylchu/compostio ar gyfer gwastraff dinesig ac sydd hefyd yn rhagdybio cynnydd blynyddol o 3% ym mhob gwastraff. Mae'r canlyniadau'n awgrymu y bydd yn rhaid claddu tua 3.2 miliwn o dunelli o wastraff erbyn y flwyddyn 2010 os cyrhaeddir pob targed, a chael hyd i le ar gyfer 36.3 miliwn o dunelli o wastraff mewn safleoedd claddu gwastraff rhwng 2001 a 2010. Os bydd gwastraff yn cynyddu o 3% ac na chyrhaeddir ond y targedau ar gyfer gwastraff dinesig, yna bydd yn rhaid claddu tua 5.4 miliwn o dunelli o wastraff ym 2010 a chael hyd i le ar gyfer 49.4 miliwn o dunelli o wastraff mewn safleoedd claddu gwastraff rhwng 2001 a 2010. Ym 1999, amcangyfrifwyd bod lle i gladdu mwy na 37.5 miliwn o dunelli o wastraff i gyd. Os bydd gwastraff yn dal i gynyddu ar yr un raddfa ac na chyrhaeddir y targedau ar gyfer lleihau gwastraff diwydiannol a masnachol, bydd prinder dybryd o le ar gyfer claddu gwastraff yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd nesaf.

<u>Sefydlu'r seilwaith</u>

71 Y sector preifat drwy gymorth pwysig yr awdurdodau lleol a'r sector cymunedol/gwirfoddol (e.e. cynlluniau compostio cymunedol a chanolfannau ailgylchu) fydd yn bennaf gyfrifol am sefydlu'r seilwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r newidiadau a gynigiwyd yn y strategaeth ddrafft hon. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i weithredu'n unol â chynllun sydd cyhyd ag y bo modd yn pennu bod yr angen am gyfleusterau newydd yn cael ei nodi mewn

Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Unedol. Hyd y bo'n ymarferol, nodir y safleoedd neu'r ardaloedd sy'n addas ar gyfer sefydlu cyfleusterau newydd yn ystod y broses o lunio cynlluniau datblygu (gan ymgynghori'n llawn â chymunedau lleol).

***Addysg***

72 Mae'r Cynulliad yn barnu bod angen addysgu ynglŷn â gwastraff yn bennaf er mwyn:

- newid ymddygiad defnyddwyr a chynhyrchwyr fel ei gilydd (e.e. alltudio'r syniad o gymdeithas sy'n barod i daflu ysbwriel boed ar y strydoedd neu i'r bin ysbwriel);
- codi ymwybyddiaeth (e.e. dangos yr hyn sy'n digwydd i'r ysbwriel a deflir yn y bin);
- annog pobl i gymryd rhan (e.e.mewn casgliadau ochr y ffordd);
- newid rhagfarnau (e.e. dangos effaith amgylcheddol rheoli gwastraff yng nghyd-destun effaith datblygiadau eraill);
- edrych ar wastraff fel adnodd gwerthfawr.

73 Cynigir y dylai cynlluniau addysgu yng Nghymru dargedu'r grwpiau canlynol ar y dechrau fel mater o flaenoriaeth:

- deiliaid tai;
- ysgolion a cholegau;
- y rhai sy'n taflu ysbwriel ac yn cael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon;
- diwydiannau a busnesau (yn gynhyrchwyr nwyddau a chynhyrchwyr gwastraff fel ei gilydd).

74 Mae'r Cynulliad yn annog llywodraeth leol a'i phartneriaid i sefydlu cynllun codi ymwybyddiaeth ynghylch gwastraff yng Nghymru i gefnogi gweithgarwch lleol sy'n targedu'r ddau grŵp cyntaf a nodwyd uchod.

75 Er mwyn sicrhau bod ymgyrchoedd addysgu'n targedu'r pedair prif gynulleidfa a nodwyd uchod fel blaenoriaeth, bydd y Cynulliad yn:

- cydweithio â Fforwm Gwastraff Cymru a'i Is-grŵp Addysg a phartneriaid posibl eraill er mwyn cael hyd i ffyrdd o roi cychwyn i'r holl ymgyrchoedd addysgu pwysicaf;
- annog awdurdodau lleol yn gryf i lunio strategaeth gyfathrebu fel rhan o'u strategaeth rheoli gwastraff dinesig ac i deilwra eu hymgyrchoedd addysgu i'r newid mewn arferion rheoli gwastraff sydd ganddynt mewn golwg;
- ceisio sicrhau bod brand Cymreig ar yr ymgyrchoedd addysgu ynghylch gwastraff a thrafod yr angen am gefnogi ymgyrchoedd lleol hefyd gyda'r cyfryngau yng Nghymru a'r DU;
- helpu'r awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithio'n gydlynol i hyrwyddo'r syniad o brynu nwyddau wedi'u hailgylchu, drwy fynnu trafod â'r prif archfarchnadoedd yn y DU er mwyn ceisio eu denu i gefnogi'r gwahanol gynlluniau sy'n bodoli eisoes;
- helpu i ddatblygu ymgyrchoedd addysgu drwy gefnogi cynnal rhagor o waith ymchwil drwy'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Gwastraff ac Adnoddau er mwyn dod i adnabod a goresgyn y ffactorau sy'n rhwystro ailgylchu a phwyso a mesur a fyddai anogaethau ariannol neu fathau eraill o anogaeth yn effeithiol a chosteffeithiol ai peidio;

- cynnig bod prosiectau addysg yn y dyfodol yn cynnwys elfen fonitro er mwyn helpu pobl i ddeall mwy am y ffordd y gall gwahanol negeseuon newid ymddygiad go iawn yn hytrach na bwriadu ei newid yn unig;
- cefnogi sefydlu gwefan genedlaethol sy'n cynnwys gwybodaeth ac yn rhestru dulliau ymchwil effeithiol, yr arferion gorau a defnyddiau addysgol i gefnogi'r strategaethau lleol a chenedlaethol.

***Gwella'n dealltwriaeth***

76 Mae llawer o agweddau ar reoli gwastraff yng Nghymru y dylem ymdrechu i'w deall yn well, yn enwedig o safbwynt darparu data, deall ymddygiad a gweithredu mewn ffyrdd arloesol. Er mwyn gwneud hyn, bydd yn rhaid cydweithio â nifer o sefydliadau a grwpiau eraill er mwyn sicrhau dull gweithio cydlynol a defnydd doeth o adnoddau.

77 Mae'r Cynulliad wedi comisiynu ymgynghorwyr i astudio maint a chyfansoddiad gwastraff dinesig yng Nghymru, a'r ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau cynhyrchu'r gwastraff hwnnw. Bydd yr ymgynghorwyr hyn yn llunio protocol y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i gael hyd i wybodaeth am gyfansoddiad gwastraff yr awdurdod. Drwy ddarparu gwell data ar gyfer y rhannau o'r ffrwd wastraff sy'n fiodiraddadwy neu y gellir eu hailgylchu, eu troi'n gompost neu'u llosgi bydd modd cynllunio'n well ar gyfer y dyfodol. O gael gwybodaeth am y ffactorau sy'n effeithio ar gynhyrchu gwastraff, bydd yn bosibl deall sut i fynd ati i'w leihau a'i ailddefnyddo.

78 Mae cynlluniau ar droed i sefydlu Canolfan Ragoriaeth Wastraff academaidd yng Nghymru er mwyn datblygu'r gwahanol gynlluniau ymchwil i wastraff a gynhelir ar hyn o bryd yn ein prifysgolion mewn dull mwy cydlynol, ac ateb yr angen am waith ymchwil a nodwyd yn y strategaeth.

***Gwell rheoleiddio a gorfodi***

79 Mae deddfwriaeth wastraff bresennol yn faith ac yn gymhleth. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i'r dasg o wella rheoleiddio, ac felly bydd yn annog Llywodraeth y DU i adolygu'r ddeddfwriaeth wastraff sylfaenol bresennol a'i symleiddio a'i grynhoi mewn cyn lleied o offerynnau cyfreithiol ag y bo modd lle mae hynny'n bosibl, gan ofalu o hyd i gydymffurfio â holl ofynion Cyfarwyddebau'r UE.

80 Bydd y Cynulliad yn sicrhau bod arweiniad priodol ar gael i'r rhai yr effeithir arnynt gan ddeddfwriaeth wastraff. Rydym yn un o bartneriaid Envirowise a sefydlwyd er mwyn cynghori busnesau ynghylch technoleg amgylcheddol a'r arferion amgylcheddol gorau. Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig arweiniad digonol ac amserol i fusnesau sy'n cael eu rheoleiddio[12].

81 Mae'r Cynulliad yn bwriadu hyrwyddo rhaglen trin ysbwriel. Ymgynghorwn ag awdurdodau lleol a chyrff eraill yng Nghymru er mwyn penderfynu sut orau i ddechrau datrys y broblem honno. Dylai trin ysbwriel fod yn un o feini prawf pwysig mewn adolygiadau Gwerth Gorau ar reoli gwastraff. Bydd y Cynulliad yn gofyn i bob awdurdod gynnwys cynllun ysbwriel (a ddisgrifir yn Rhan 2, Pennod

---

[12] Mae arweiniad ar gael ar wefan yr Asiantaeth ar www.environment-agency.gov.uk

3 Côd Ymarfer Ysbwriel a Gwastraff) yn ei Strategaethau Rheoli Gwastraff Dinesig. Cydweithredwn â'r adolygiad ar ddeddfwriaeth ysbwriel a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgychedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Bydd y Cynulliad yn galw am newid deddfwriaeth sylfaenol er mwyn rhoi'r hawl i awdurdodau lleol gadw'r arian a gawsant drwy ddirwyon ysbwriel. Byddwn hefyd yn adolygu deddfwriaeth eilaidd ar ysbwriel gan ymgynghori â budd-ddeiliaid yn ystod y broses honno.

Rhai o ystyriaethau'r adolygiad fydd:

- ysbwriel mewn cyrsiau dŵr a phyllau ac ar eu glannau;
- ysbwriel ar dir preifat;
- rheoli gwastraff masnachu;
- gorfodi deddfau ysbwriel ac erlyn troseddwyr.

82 Mae ymdrin ag ysbwriel yn un o flaenoriaethau pwysicaf y Cynulliad, a bydd yn sicrhau bod arian ychwanegol ar gael i awdurdodau allu mynd i'r afael â'r broblem. Bydd camau gweithredu eraill yn y strategaeth, gan gynnwys gwella dulliau o reoli safleoedd amwynder dinesig a rhoi nawdd ychwanegol er mwyn helpu i ddod â'r arfer o ollwng gwastraff yn anghyfreithlon i ben(gweler isod) hefyd yn rhan o nod y Cynulliad ar gyfer datrys problem ysbwriel.

83 Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i roi terfyn ar yr arfer o waredu gwastraff yn anghyfreithlon boed ar raddfa fach drwy adael bagiau du yn llawn o ysbwriel neu ar raddfa fawr drwy redeg safle gwastraff anghyfreithlon. Mae'r Cynulliad yn cefnogi'r Protol ar Waredu Gwastraff yn Anghyfreithlon a luniwyd ar y cyd gan Lywodraeth Leol ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac y cytunir arno'n fuan. Mae hwn yn egluro sut mae rhannu'r cyfrifoldebau am glirio mathau gwahanol o wastraff a waredir yn anghyfreithlon. Mae'r Cynulliad hefyd yn gadarn o blaid ymgyrch Asiantaeth yr Amgylchedd 'Targedu Gorfodi' ac yn rhoi £200,000 o nawdd ychwanegol yn 2001/02 i'w chefnogi.

***Arwain ac ymgynghori'n effeithiol***

84 Mae Cyfarwyddebau'r CE yn gofyn i pob lefel o lywodraeth sicrhau y rheolir gwastraff yn briodol a bod cynlluniau yn eu lle ar gyfer ei reoli. Y Cynulliad fydd yn arwain y gwaith o weithredu'r strategaeth wastraff. Bydd hefyd yn gosod esiampl a darbwyllo eraill i'w dilyn. Bydd yn gwneud hyn drwy gydlynu ymdrechion ar draws Cymru, annog partneriaethau a cheisio darparu nawdd pan fo angen. Bydd yn sicrhau cyswllt priodol o fewn Cymru rhwng fudd-ddeiliaid allweddol y strategaeth - sef yr awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – ac adrannau Llywodraeth y DU a chyrff DU eraill y tu allan i Gymru. Bydd y Cynulliad hefyd yn archwilio a monitro cynnydd ac ymyrryd pan fo angen i ddatrys problemau. Bydd hefyd yn defnyddio ei allu i gyfeirio pan fo angen.

85 Mae gan llywodraeth y DU ran hanfodol bwysig i'w chwarae o safbwynt cyflwyno offerynnau ariannol a chyfreithiol a phwyso ar fusnesau yn y DU i newid eu harferion rheoli gwastraff yn unol â rheolau'r cymunedau rhyngwladol ac Ewropeaidd. Mae llawer o'r newidiadau yr hoffai'r Cynulliad eu gweld yn dibynnu ar weithredu ar lefel DU.

86 Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddull 'cyfunol' o weithredu a bydd yn sicrhau bod y strategaeth wastraff yn cydweddu'n dda â'i strategaethau eraill ac yn berthnasol iddynt. Bydd yr holl strategaethau hyn yn gysylltiedig â pholisïau gwastraff y strategaeth wastraff derfynol, a bydd unrhyw gamau gweithredu sy'n cyffwrdd â mwy nag un strategaeth yn atgyfnerthu'n hytrach nag yn datblygu ei gilydd.

87 Bydd y Cynulliad yn gweithredu polisïau rheoli gwastraff mewnol y tu fewn i'w bolisi amgylcheddol ei hunan. Bydd yn lleihau ei wastraff ei hunan ac yn ailgylchu gwastraff ble bynnag y bo modd. Dan ei raglen Prynu Gwyrdd bydd yn sicrhau ei fod yn prynu nwyddau wedi'u hailgylchu, eitemau hirbarhaol, eitemau perygl isel ac eitemau hawdd eu hailgylchu, ble bynnag y bo modd.

88 Mae'r Cynulliad hefyd mewn sefyllfa i ddylanwadu'n uniongyrchol ar nifer fawr o wasanaethau cyhoeddus a bydd yn gwneud ei orau i ddarbwyllo'r rheiny i weithredu ei raglen Prynu Gwyrdd a'u gorfodi i gymryd camau tuag at gynhyrchu llai o wastraff.

***Pwy sy'n gyfrifol am helpu'r Cynulliad i weithredu'r strategaeth wastraff?***

89 Bydd gofyn i bawb, yn unigolion a busnesau fel ei gilydd, gyfrannu'n sylweddol tuag at weithredu'r strategaeth os ydym am sefydlu dull cynaladwy o reoli gwastraff yng Nghymru. Mae Pennod 5 o'r brif ddogfen yn crynhoi'r prif swyddogaethau a'r gwaith y bydd yn rhaid i'r canlynol eu cyflawni (yn ychwanegol at yr hyn y gall y Cynulliad ei hunan ei wneud):

- cynhyrchwyr nwyddau;
- cynhyrchwyr gwastraff diwydiannol a masnachol;
- y diwydiant adeiladu;
- adwerthwyr;
- y cyhoedd yn gyffredinol;
- awdurdodau lleol;
- y diwydiant rheoli gwastraff;
- y sector cymunedol/gwirfoddol;
- y sector busnes nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol;
- Awdurdod Datblygu Cymru;
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru;
- Llywodraeth y DU.

## Arfarnu canlyniadau tebygol y strategaeth

90 Mae Pennod 6 o'r brif ddogfen yn pwyso a mesur y strategaeth ddrafft o fewn cyd-destun datblygiad cynaladwy. Rhaid pwyso a mesur yr effeithiau a'r canlyniadau canlynol cyn cychwyn:

***Yr amgylchedd***

91 Ar ôl gwneud ychydig o waith ar gyfer Astudiaeth Gwmpas Strategaeth Wastraff Cymru[13] gan ddefnyddio proses dadansoddi cylch bywyd, gallwn fentro gwneud y

[13] 'Options for a Welsh Waste Strategy: A Technical Report for the National Assembly for Wales' ECOTEC ac WS Atkins. Medi 2000.

sylwadau canlynol am effeithiau amgylcheddol gwahanol ddulliau o reoli gwastraff dinesig:

- fel arfer mae ailgylchu'n defnyddio llai o ynni ar y cyfan na defnyddio deunydd crai yn y broses gynhyrchu – mae hyn yn golygu llai o nwyon tŷ gwydr;
- drwy gynhyrchu ynni o wastraff[14] defnyddir llai o danwydd ffosil mewn gorsafoedd trydan (er bod cyfran o'r gwastraff yn danwydd ffosil e.e. plastigau) – sydd hefyd yn golygu llai o nwyon tŷ gwydr;
- mae ailgylchu a chynhyrchu ynni o wastraff yn effeithio llai ar yr amgylchedd na chladdu gwastraff oherwydd y cynhyrchir llai o nwyon tŷ gwydr ac y defnyddir llai o ynni wrth ailgylchu neu adennill ynni;
- mae ailgylchu fel arfer yn effeithio llai ar yr amgylchedd na chynhyrchu ynni o wastraff am yr arbedir mwy o ynni'n gyffredinol wrth ailgylchu (hyd yn oed wrth ystyried yr ynni a ddefnyddir wrth symud gwastraff at ddibenion ailgylchu);
- mae ailgylchu a chynhyrchu ynni o wastraff yn effeithio'n llai ar asideiddio na chladdu gwastraff am fod angen llai o ynni ar gyfer ailgylchu ac y gollyngir llai o ocsidau sylffwr o ganlyniad, sydd hefyd yn wir am adennill ynni o wastraff. Defnyddio llai o lo i gynhyrchu trydan sy'n cyfrif am hyn;
- mae tuedd i ddefnyddio llai o adnoddau anadnewyddadwy wrth ailgylchu a chynhyrchu ynni o wastraff nag a ddefnyddir wrth gladdu gwastraff. Digwydd hyn am fod ailgylchu ac adennill ynni'n defnyddio llai o danwydd ffosil, haearn ac alwminiwm;
- gellir lleihau'r effaith tŷ gwydr drwy gladdu llai o wastraff biodiraddadwy a defnyddio nwyon safleoedd claddu gwastraff yn fwy effeithiol.

***Iechyd***

92 Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu a defnyddio asesiadau effaith iechyd ac yn annog sefydliadau eraill yng Nghymru i wneud yr un fath. Mae Pennod 6 ac Atodiadau 8 a 9 o'r brif ddogfen yn rhoi arweiniad ar ddefnyddio'r asesiadau hyn ac fe'u defnyddir i asesu effaith y strategaeth derfynol. Pwynt pwysig yw bod yn rhaid mynd ati mewn ffordd briodol i gymharu unrhyw beryglon i iechyd sy'n codi'n sgîl rheoli gwastraff â'r peryglon arferol neu gefndirol a all effeithio ar bawb yn y gymdeithas. Er enghraifft, prif benderfynyddion salwch a marwolaeth mewn gwledydd cyfoethog bellach, er enghraifft, yw ffactorau genetig, ffordd o fyw (y cyfyngir arni'n rhannol gan dlodi) a chlefydon sy'n gysylltiedig â henaint.

93 Bu tuedd i astudiaethau blaenorol o safleoedd rheoli gwastraff unigol, gyflwyno'u testun o safbwynt arbennig am iddynt gael eu llunio'n amlach na pheidio mewn ymateb i bryderon ynghylch iechyd a leisiwyd yn lleol. Y mae peth tystiolaeth sy'n dangos, er bod drigolion a allai fod mewn perygl sy'n credu eu bod mewn perygl yn sôn am symptomau gwaeth, nad yw trigolion yn yr un sefyllfa nad ydynt yn credu eu bod mewn perygl yn debyg o nodi mwy o symptomau na grŵp rheolaeth.

94 Ni ellir dod i lawer o gasgliadau ynglŷn â'r perygl i iechyd a achosir gan weithrediadau rheoli gwastraff drwy gyfeirio at astudiaethau blaenorol. Dyma rai peryglon a allai godi:

[14] Llosgi oedd y model ond y mae technolegau eraill ar gyfer cynhyrchu ynni o wastraff i'w cael

- problemau anadlu sy'n gysylltiedig â nifer o ffyngi a bacteria sy'n bresennol mewn gwastraff biodiraddadwy (mae'n bosibl bod bio-erosolau'n helpu i'w cludo);
- micro-organebau pathogenaidd fel halogynnau mewn gwastraff (e.e. bacteria colifform o faw anifeiliaid, clefyd Weil a gludir gan bla);
- sylweddau anweddol a llwch a ollyngir i'r awyr o safleoedd claddu gwastraff;
- gollyngiadau o gerbydau sy'n cludo gwastraff i gyfleusterau rheoli;
- gollyngiadau o sylweddau anweddol a gronynnau o losgwyr gwastraff;
- gwastraff peryglus a adawyd yn anghyfreithlon.

95 Nid oes tystiolaeth bendant hyd yn hyn bod perygl sylweddol i iechyd unrhyw boblogaethau sy'n byw wrth ymyl safle rheoli gwastraff modern. Serch hynny, deuwn i ddeall mwy ar hyd yr amser am y cysylltiad rhwng iechyd a'r amgylchedd. Cawn adroddiadau'n fuan ar brosiectau sy'n trafod pynciau megis claddu, llosgi, compostio a datblygiadau mewn arferion rheoli gwastraff o safbwynt eu heffaith ar iechyd. Yn y pendraw, bydd y data hwn a mathau eraill o ddata'n ein helpu i asesu effaith strategaeth wastraff Cymru ar iechyd. Dylai Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol eu defnyddio wrth gynnal eu hasesiadau o effaith rheoli gwastraff ar iechyd a dylai awdurdodau lleol eu hystyried wrth lunio eu Cynlluniau Datblygu Unedol.

***Cyflogaeth***

96 Ar y cyfan, mae technegau rheoli gwastraff sy'n uwch yn yr hierarchaeth wastraff yn creu mwy o swyddi uniongyrchol. Er bod lleihau gwastraff efallai'n eithriad i'r rheol hon, gall ddal i warchod swyddi'n anuniongyrchol drwy wneud busnesau'n fwy effeithlon a mwy cystadleuol o ganlyniad. Mae hefyd yn rhoi gwaith i bobl sy'n cynghori ynghylch lleihau gwastraff a phobl sy'n gweithio mewn cwmnïau er mwyn gweithredu'r cyngor hwnnw. Mae polisïau'r Cynulliad ar gyfer didoli gwastraff yn y man cychwyn a defnyddio defnyddiau gwastraff fel adnodd ill dau'n gofyn am gyfarpar newydd a staff ychwanegol.

97 Mae Tabl 2 yn amcangyfrif anghenion adnoddau dynol posibl ar gyfer y flwyddyn 2010 os gweithredir y targedau ailgylchu a chompostio ar gyfer gwastraff dinesig, sydd orau gan y Cynulliad (yn lle cynnal y gyfradd ailgylchu bresennol o 5%). Cyflwynir ffigyrau sy'n darparu ar gyfer cynnydd o 0% a 3% mewn gwastraff dinesig. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y creir rhwng 450-9,500 o swyddi ychwanegol. Bydd y nifer terfynol yn dibynnu ar y dull o gasglu gwastraff y bydd pob awdurdod lleol yn ei ddewis a'r mathau o farchnadoedd a geir ar gyfer deunydd wedi'i ailgylchu.

***Cymdeithasol***

98 Mae'n anodd mesur effaith gweithredu'r strategaeth ar y gymdeithas. Mae llawer yn dibynnu ar gyfraniad cymunedau'n lleol a'r modd y gweithredir y strategaeth drwy benderfyniadau lleol. Gellir asesu'r effaith gymdeithasol o safbwyntiau optimistaidd a phesimistaidd wrth edrych ar y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd.

**Tabl 2. Crynodeb o'r anghenion staff amcan ar gyfer 2010 sy'n codi o reoli ac adfer gwastraff dinesig yng Nghymru.**

| System rheoli gwastraff | Scenario | Gofynion adnoddau dynol ym 2010 ar gyfer cyfraddau twf gwastraff dinesig (personau) | |
|---|---|---|---|
| | | 0% twf | 3% twf |
| Dull gweithredu 'traddodiadol' | yn ôl yr arfer cyfredol | 2,468 | 3,421 |
| Cyrraedd y targedau ailgylchu/compostio a ffafrir | LLEIAFSWM - h.y. casglu deunydd i'w ailgylchu a gwastraff gweddilliol bob yn ail bob pythefnos; defnyddio ' Safle Adennill Deunyddiau brwnt'; lleiafswm tasgau ailbrosesu; compostio, lleiafswm RDF-Ynni o wastraff; a lleiafswm claddu gwastraff | 2,917 | 4,160 |
| | UCHAFSWM – h.y. casglu deunydd i'w ailgylchu ac i'w gompostio ar wahân gan ddidoli deunydd i'w ailgylchu ar gerbyd (bob pythefnos) ynghyd â rhoi swmp a ffurfio bêls ynghyd â chasglu gwastraff gweddilliol (bob wythnos); uchafswm tasgau ailbrosesu; compostio, uchafswm RDF-Ynni o wastraff; ac uchafswm claddu gwastraff | 9,000 | 12,838 |
| Nifer y swyddi ychwanegol a grewyd | LLEIAFSWM – fel yr uchod | 449 | 739 |
| | UCHAFSWM – fel yr uchod | 6,532 | 9,417 |

<u>Asesiad Optimistaidd</u>

99 Mae asesiad optimistaidd o effeithiau cymdeithasol y strategaeth yn awgrymu y gallai'r canlynol ddigwydd:

- bydd y swyddi ychwanegol a greir yn fuddiol i'r economi;
- lleddfir pryderon pobl leol drwy gladdu llai o wastraff;
- unir cymunedau a chynhyrchir 'cyfalaf cymdeithasol' wrth gynnwys pobl leol mewn cynlluniau ailgylchu a chompostio;
- daw deiliaid tai sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau ailgylchu ochr y ffordd i deimlo'n fwy cyfrifol am eu cymdeithas am eu bod yn helpu i wella'r amgylchedd ac adennill defnyddiau gwerthfawr o wastraff. Mae hyn yn cydymffurfio â'r agwedd sy'n ffafrio cynhwysiad cymdeithasol mewn datblygiad cynaladwy;
- drwy godi ymwybyddiaeth o wastraff fel problem, a chynnig ffyrdd positif o'i datrys, gellir lleihau'r anghyfiawnder sy'n codi o sefyllfa lle mae nifer bach o ddinasyddion yn dioddef am na welodd y mwyafrif yn dda i weithredu;
- deuir i feddwl am ddefnyddiau gwastraff fel adnodd a gweld mai arfer doeth yn hytrach nag anffasiynol yw estyn oes nwyddau ac ailddefnyddio defnyddiau;
- wrth fynd i'r afael â phroblem ysbwriel a gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon, bydd cymdogaethau'n lanach a bydd yn help i godi gwerth amwynder ardaloedd. Bydd hyn yn ei dro'n peri i bobl ymfalchïo'n eu hardaloedd a gwneud Cymru yn fwy deniadol (a gallai hefyd fod yn hwb i dwristiaeth a buddsoddi mewnol).

Asesiad pesimistaidd

100 Gallai'r strategaeth hefyd esgor ar ganlyniadau cymdeithasol andwyol fel y rhai isod, yn enwedig os na chaiff cymunedau eu cynnwys yn effeithiol mewn prosesau penderfynu ac os na chânt gyfle i gymryd rhan yn y gweithgarwch:

- mae perygl o ynysu pobl yn fwy os deuir i benderfyniadau heb ymgynghori a sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael;
- gallai pobl fod yn gyndyn i dderbyn unrhyw fath o gyfleuster rheoli deunydd gan barhau'r syniad bod cyfleusterau rheoli gwastraff yn 'gymydog drwg';
- gallai cynyddu costau rheoli gwastraff dinesig gael effaith gymdeithasol andwyol yn enwedig ar grwpiau ar incwm isel.

***Ariannol***

101 Rhoddir amcangyfrif bras o gostau gweithredu'r strategaeth ym Mhennod 6. Dadansoddwyd y newidiadau canlynol o safbwynt eu heffaith ariannol:

- ar gyfer gwastraff dinesig (ar gyfradd twf o 0% a 3%), amcangyfrifwyd costau casglu a gwaredu ar gyfer yr senarios canlynol:
  - SENARIO 1: yr 'achos sylfaenol' sy'n awgrymu y dylid parhau'r sefyllfa bresennol sef – ailgylchu 5% a chladdu'r gweddill (h.y. ni fydd yr opsiwn hwn yn cydymffurfio â thargedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff);
  - SENARIO 2: targedau ailgylchu Strategaeth Wastraff 2000 (h.y. ailgylchu 30% erbyn 2010) claddu hyd at dargedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff a rheoli'r gweddill drwy brosesau cynhyrchu ynni o wastraff;
  - SENARIO 3: ailgylchu 40% (compostio 15%) o 2010, claddu hyd at dargedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff a rheoli'r gweddill drwy brosesau cynhyrchu ynni o wastraff (yn ôl yr angen);
  - SENARIO 4: ailgylchu 40% (compostio 15%) erbyn 2010, ailgylchu 60% (compostio 20%) o 2013 ymlaen, claddu hyd at dargedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff a rheoli'r gweddill drwy brosesau cynhyrchu ynni o wastraff (yn ôl yr angen).
- ar gyfer gwastraff peryglus a 'gwaharddedig':
  - costau rheoli gwastraff peryglus a 'gwaharddedig' yng Nghymru sy'n codi o'r newidiadau a bennwyd gan y Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff (h.y. safleoedd ar gyfer gwastraff peryglus yn unig, dulliau gwaredu amgen y gofyniad i drin y gwastraff yn gyntaf, gwahardd gwaredu rhai mathau o wastraff).
- ar gyfer pob gwastraff a gleddir:
  - amcangyfrif bras o'r costau tebygol o reoli pob gwastraff a gleddir sy'n codi o newidiadau mewn arferion claddu gwastraff a'r gofyniad yng Nghymru am drin y gwastraff yn gyntaf dan y Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff.
- arbed mathau eraill o wastraff biodiraddadwy rhag cael eu claddu:
  - y costau amcan o weithredu'r darged ar gyfer claddu llai o wastraff biodiraddadwy yng Nghymru (claddu llai nag 85% o'r holl wastraff biodiraddadwy a gladdwyd ym 1998 erbyn 2005).
- cyrraedd y targedau eraill:

– amcangyfrifiad o'r costau tebygol o gyrraedd targedau eraill ym Mhennod 4.

102 Amcangyfrifiad o gost ariannol i awdurdodau lleol bob un o'r senarios a nodwyd yn Nhabl 3 ar gyfer gwastraff dinesig. Mae'r costau 'Isel' ar gyfer yr 'achos sylfaenol' yn rhagdybio cynnydd o £1 y dunnell yn unig yn y Dreth Claddu Gwastraff tan 2004 tra bod y costau 'Uchel' yn rhagdybio cynnydd o £1 y dunnell bob blwyddyn tan 2020. Os na newidir graddfa'r cynnydd yn y Dreth Claddu Gwastraff, gallai'r opsiwn a ddewisir gan y Cynulliad ar gyfer rheoli gwastraff dinesig a chyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff yng Nghymru ('Senario' 3) gostio £22 –667 miliwn yn ychwanegol yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, gan ddibynnu ar dwf. Mae'r opsiwn a ddewisir gan y Cynulliad yn dibynnu ar ailgylchu a chompostio'n bennaf er mwyn cyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb tra bod Senario 2 yn dibynnu'n fwy ar brosesau cynhyrchu ynni o wastraff. Rhan o'r rheswm am hyn yw bod yn rhaid gwario mwy o gyfalaf er mwyn rhedeg cyfleusterau cynhyrchu ynni o wastraff.

103 Mae'n bwysig nodi y gallai cynnydd o 3% o'i gymharu â 0% y flwyddyn esgor ar gostau ychwanegol o rwng £420-620 miliwn sy'n dangos mor hanfodol bwysig yw rheoli'r fath gynnydd.

104 Crynhoir y costau o weithredu agweddau eraill ar y Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff i fusnesau yn Nhabl 4 (mae'r rhain yn amodol ar nifer o ffactorau ansicr).

**Tabl 3 Ffigyrau crynhoi costau gwastraff dinesig sy'n cynyddu ar gyfradd o 0% (gwerth presennol net)**

| Categori cost | Cyfnod Amser | Costau (£ miliwn) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ystod | SENARIO 1 (Achos sylfaenol) | SENARIO 2 (SW 2000) | SENARIO 3 (40% Ailgylchu/ Compostio) | SENARIO 4 (60% Ailgylchu/ Compostio) |
| Ar gyfer twf 0% | | | | | | |
| Cost (Gwerth Cyfredol Net) | hyd 2010 | ISEL | 725.40 | 732.88 | 731.50 | 731.50 |
| | | UCHEL | 913.94 | 966.66 | 948.50 | 948.50 |
| | hyd 2013 | ISEL | 857.43 | 870.11 | 867.93 | 869.59 |
| | | UCHEL | 1102.42 | 1171.71 | 1147.81 | 1151.52 |
| | hyd 2020 | ISEL | 1104.52 | 1134.13 | 1126.92 | 1136.16 |
| | | UCHEL | 1488.29 | 1583.59 | 1546.99 | 1561.23 |
| Gwariant Cyfalaf Cronnus | hyd 2010 | ISEL | 4.2 | 72.2 | 34.2 | 34.2 |
| | | UCHEL | 6.0 | 119.5 | 72.0 | 72.0 |
| | hyd 2013 | ISEL | 4.2 | 122.8 | 34.2 | 43.8 |
| | | UCHEL | 6.0 | 200.0 | 72.0 | 91.5 |
| | hyd 2020 | ISEL | 4.2 | 147.8 | 84.2 | 51.0 |
| | | UCHEL | 6.0 | 238.0 | 148.0 | 106.5 |
| Ar gyfer twf 3% | | | | | | |
| Gwerth Cyfredol Net | hyd 2010 | ISEL | 872.94 | 883.03 | 881.39 | 881.39 |
| | | UCHEL | 1103.62 | 1172.56 | 1149.52 | 1149.52 |
| | hyd 2013 | ISEL | 1072.53 | 1090.86 | 1088.81 | 1090.71 |
| | | UCHEL | 1388.67 | 1483.85 | 1454.76 | 1458.10 |
| | hyd 2020 | ISEL | 1504.27 | 1553.42 | 1551.51 | 1558.26 |
| | | UCHEL | 2064.33 | 2205.67 | 2171.55 | 2177.13 |
| Gwariant Cyfalaf Cronnus | hyd 2010 | ISEL | 4.2 | 133.6 | 51.6 | 51.6 |
| | | UCHEL | 9.0 | 219.5 | 105.0 | 105.0 |
| | hyd 2013 | ISEL | 4.2 | 237.2 | 155.8 | 97.6 |
| | | UCHEL | 9.0 | 382.0 | 269.0 | 189.5 |
| | hyd 2020 | ISEL | 7.8 | 398.0 | 295.2 | 176.4 |
| | | UCHEL | 13.5 | 629.5 | 486.0 | 325.5 |

**Tabl 4 Ffigyrau amcan crynhoi costau effeithiau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff ar wastraff ac eithrio gwastraff dinesig yng Nghymru**

| Gofyniad y Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff | Costau (£k) | | |
|---|---|---|---|
| | Isel | Canolig | Uchel |
| Gwastraff cyrydol Gwaharddedig | 192 | 360 | 528 |
| Gwastraff Hylifol Gwaharddedig | 650 | 2,480 | 4,320 |
| Gwastraff Peryglus wedi'i Drin ymlaen Llaw | 4,372 | 7,758 | 11,143 |
| Gwastraff heb fod yn Beryglus wedi'i Drin ymlaen Llaw | -1,590 | 29,545 | 60,680 |
| Cyfansymiau | 3,624 | 40,143 | 76,671 |

## Monitro

105 Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i gydweithio â'i bartneriaid er mwyn sicrhau y caiff cynnydd mewn gweithredu'r strategaeth wastraff ei fonitro'n ddigonol. Bydd y gwaith monitro'n cynnwys cyfeirio at y ffynonellau gwybodaeth canlynol:

- arolwg blynyddol Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau/CCC ar wastraff dinesig;
- dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau;
- dangosyddion Datblygiad Cynaladwy;
- arolwg Cynhyrchu Gwastraff (Diwydiannol a Masnachol) Teirblynyddol Cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd;
- adroddiadau mewnbwn/allbwn cyfleusterau rheoli gwastraff a drwyddedir gan Asiantaeth yr Amgylchedd;
- data olrhain gwastraff arbennig Asiantaeth yr Amgylchedd;
- cynhelir arolygon eraill ar ffrydiau gwastraff penodol;
- cynlluniau gwastraff rhanbarthol;
- strategaethau gwastraff dinesig awdurdodau lleol;
- Cynlluniau Datblygu Unedol awdurdodau lleol.

106 Bydd y Cynulliad yn ystyried estyn swyddogaeth a chwmpas gweithredu Fforwm Gwastraff Cymru er mwyn iddo allu gweithredu fel 'Grŵp Monitro Strategaeth Wastraff Cymru'. Gallai'r Fforwm, sy'n cynrychioli nifer o wahanol fudd-ddeiliaid allweddol, gyflawni swyddogaeth bwysig iawn wrth fonitro'r broses o weithredu'r strategaeth.

## Adolygiad

107 Am fod disgwyl i arferion rheoli gwastraff weddnewid yn ystod yr ychydig o flynyddoedd nesaf, teimla'r Cynulliad y dylid adolygu strategaeth wastraff Cymru bob tair blynedd ar y dechrau. Mae'r strategaeth ddrafft yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ynglŷn â chostau, cynnydd mewn gwastraff, lefelau ailgylchu a chompostio ymarferol a chyfansoddiad gwastraff. Bydd yn rhaid ailasesu'r sefyllfa pan ddaw gwybodaeth fwy dibynadwy i law (yn enwedig gwybodaeth am gynnydd a chyfansoddiad) yn sgîl gweithgareddau i wella data dan nawdd y Cynulliad.

108 Bydd y Cynulliad yn cynnal adolygiadau drwy gydweithio'n agos â'i bartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, y diwydiant gwastraff, y sector ailgylchu cymunedol, WDA, Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill.

## Sylwadau i gloi

109 Mae'r Cynulliad wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb pwysig o lunio ei strategaeth wastraff ei hunan. Mae'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff yn gymhelliad cryf dros newid. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod Cymru'n derbyn yr her ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n dod yn sgîl datganoli. Mae Cymru'n ddigon bach o ran maint i ni allu cynllunio'n iawn, y mae'n haws meithrin partneriaethau yma nag mewn mannau eraill ac y mae pob gobaith y bydd y ddyletswydd sydd arni i ddatblygu mewn ffordd gynaladwy'n esiampl ddisglair i eraill ei dilyn. Troi gwastraff yn gyfoeth, creu rhagor o swyddi a gwella'r amgylchedd a lles cymdeithas o ganlyniad yw'r bwriad.

# CWESTIYNAU YMGYNGHOROL

Mae'r Cynulliad yn croesawu'ch barn ar y cwestiynau canlynol a ofynnwyd yn y brif ddogfen ymgynghorol:

## PENNOD 1:Rhagarweiniad

C1 A ydych chi'n cefnogi'r nod hon ac os nad ydych, sut fyddech chi'n ei gwella?

C2 A ydych chi'n cefnogi'r nodau hyn yn y strategaeth ac os nad ydych, sut fyddech chi'n hoffi diwygio, dileu neu ychwanegu at unrhyw rai ohonynt?

C3 A ydych chi'n cefnogi'r egwyddorion hyn ac os nad ydych, sut fyddech chi'n hoffi eu diwygio, eu dileu neu ychwanegu atynt?

## PENNOD 3: Symbylwyr a dyheadau a'r problemau a'r cyfleoedd posibl

C4 Wrth roi'r gorau i gladdu gwastraff, yn eich barn chi, pa swyddogaeth, os o gwbl, fydd gan technolegau ynni o wastraff wrth reoli gwastraff yn gynaladwy? Pa un o'r opsiynau yn Atodiad 7, os o gwbl, sy'n cynnig posibiliadau realistig o gyfrannu at reoli gwastraff yn gynaladwy, ac ym mha amgylchiadau? A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Atodiad 7 a fydd yn helpu i ddatblygu hyn fel fframwaith ar gyfer asesu opsiynau?

C5 A ydych chi'n cefnogi'r polisïau strategol arfaethedig hyn ar gyfer Cymru a gynigiwyd gan y Cynulliad – os nad ydych sut byddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu newid?

C6 A ydych chi'n meddwl ein bod wedi cynnwys goblygiadau pwysicaf y cymhellion statudol a'r polisïau gwastraff strategol ar reoli gwastraff yng Nghymru'n ddigon manwl? A oes unrhyw oblygiadau pwysig eraill yr hoffech chi eu dwyn i'n sylw?

C7 A oes unrhyw beth arall o bwys wedi'n rhwystro'n y gorffennol?

C8 A oes unrhyw gyfleoedd eraill sy'n bwysig yn eich barn chi?

## PENNOD 4: Opsiynau ar gyfer targedau ac offerynnau polisi

C9 Ydych chi'n meddwl bod gwir ddiben gosod targed lleihau/sefydlogi gwastraff dinesig a beth yw eich barn am y ddau opsiwn a gynigiwyd?

C10 Oes modd gosod targed ystyrlon, mesuradwy ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod compostio gartref yn arbed cyfran sylweddol o wastraff biodiraddadwy rhag cael ei gynnwys yn y ffrwd wastraff ddomestig?

C11 Beth yw'ch barn chi am bob un o'r opsiynau ar gyfer targedau ailgylchu a chompostio ac ydych chi'n cytuno mai Opsiwn 2 sydd orau (h.y. targed ailgylchu a chompostio o 40% o 2010 ymlaen)?

C12 Beth yw eich barn am y targedau arfaethedig hyn i sicrhau y darperir cyfleusterau ar gyfer gwahanol fathau o wastraff peryglus o dai mewn safleoedd mwynderau dinesig?

C13 Ydych chi'n meddwl y dylid gosod targed ar gyfer cynhyrchu llai o wastraff yn y sector cyhoeddus?

C14 Ydych chi'n meddwl bod diben cael targed ar gyfer cynhyrchu llai o wastraff diwydiannol a masnachol yng Nghymru? Os felly, p'un o'r ddau opsiwn sydd orau gennych, neu a oes gennych gynigion eraill? A ddylid gosod gwahanol dargedau ar gyfer gwahanol sectorau a pha sectorau yn eich barn chi a allai gyfrannu fwyaf?

C15 Ydych chi'n cytuno â'r targedau hyn ar gyfer lleihau'r gyfran o wastraff diwydiannol a masnachol sy'n cael ei gladdu?

C16 Ydych chi'n cytuno â'r targedau hyn ar gyfer lleihau'r gyfran o wastraff diwydiannol a masnachol biodiraddadwy sy'n cael ei gladdu?

C17 Ydych chi'n meddwl ei bod yn briodol i'r Cynulliad fabwysiadu'r targed hwn ar gyfer cynhyrchu llai o wastraff arbennig/peryglus?

C18 Ar gyfer pa ffrydiau gwastraff arbennig/peryglus y mae'n synhwyrol gosod targedau lleihau gwastraff?

C19 A ddylid gosod targedau ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff A a D yng Nghymru cyn cyhoeddi unrhyw Gyfarwyddeb ac ar ba lefel y dylid eu gosod?

C20 Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cynulliad drefnu 'rhwyd ddiogelwch' o ryw fath rhag ofn na fydd gweithredwyr yn perfformio gystal (h.y. drwy rannu, dyweder 95% yn unig o'r holl drwyddedau sydd i'w cael er mwyn cyfyngu ar y gyfran o wastraff dinesig biodiraddadwy sy'n cael ei gladdu)?

C21 Pa fath o drwydded a pha fath o system archwilio sydd eu hangen ar gyfer claddu gwastraff dinesig biodiraddadwy, yn eich barn chi?

C22 Sut dylai trwyddedau claddu gwastraff gael eu rhannu i awdurdodau lleol yng Nghymru yn eich barn chi?

C23 P'un o'r ddau opsiwn fyddai orau ar gyfer trwyddedau claddu gwastraff, trwyddedau y gellir eu cyfnewid neu drwyddedau na ellir eu cyfnewid a pha system drwyddedu sydd debycaf o sicrhau y cyrhaeddir y targedau?

C24 Ydych chi'n cytuno y dylai fod targedau dros dro er mwyn cyfyngu ar y gwastraff dinesig biodiraddadwy sy'n cael ei gladdu cyn dyddiad targed cyntaf y Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff (2010), os felly a dylent fod yn dargedau gorfodol a phryd y dylent ddechrau?

C25 Ydych chi'n meddwl y gallai system o gydymffurfio ar lefel ranbarthol er mwyn i awdurdodau lleol gyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Claddu Gwastraff, weithio, ac os felly, sut byddai'n gweithio?

C26 Beth yw'ch barn chi am y cosbau y gellid eu rhoi ar awdurdodau lleol sy'n peidio â chydymffurfio â'r cyfyngiadau ar gladdu gwastraff dinesig biodiraddadwy?

C27 A yw'r awdurdodau lleol a thrydydd partïon perthnasol yn fodlon bod y gwaith o ddiweddaru Rhestr Rheoliadau Gwarchod yr Amgylchedd (Taliadau Ailgylchu Gwastraff) yn dod i ben?

C28 Ydych chi'n credu y dylai'r Cynulliad wneud yr arfer o dalu taliadau credyd ailgylchu i drydydd partïon yn orfodol? Beth fyddai goblygiadau newid o'r math hwn gan gynnwys y goblygiadau i sefyllfa ariannol awdurdodau lleol?

C29 Pa rannau y dylai'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eu chwarae yng Nghynllun Credyd y Dreth Claddu Gwastraff, yn eich barn chi, a sut gallent gydweithio orau?

C30 Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cynulliad gydweithio â llywodraethau eraill er mwyn cyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi'r cyfrifoldeb am wastraff ar y sawl sy'n ei gynhyrchu yn hytrach na cheisio gosod trefniadau gwahanol yng Nghymru?

C31 Ydych chi'n cytuno y dylai fod deddfwriaeth sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar gynhyrchydd y gwastraff er mwyn sicrhau y caiff ffilmiau plastig ffermydd eu hailgylchu?

C32 Oes unrhyw nwyddau neu ddefnyddiau a ddylai, yn eich barn chi, ddod o dan ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar gynhyrchydd y gwastraff?

C33 Beth ydych chi'n ei feddwl am gyflwyno gofynion sy'n gorfodi didoli defnyddiau ailgylchadwy a defnyddiau y gellir eu troi'n gompost yn y man cychwyn neu sy'n gorfodi defnyddio system tâl amrywiol neu ad-daliadau Treth y Cyngor er mwyn sicrhau bod mwy o wastraff yn cael ei ailgylchu/ei droi'n gompost? Oes unrhyw gymhellion y gellid eu defnyddio'n eich barn chi er mwyn cymell deiliaid tai i ailgylchu eu gwastraff?

C34 Ydych chi'n cytuno na ddylai adennill ynni o wastraff cymysg gael ei gyfrif fel adnewyddu ynni?

C35 Ydych chi'n cefnogi'r angen am Dreth Ynni o Wastraff?

C36 A ddylai'r Cynulliad ofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno trethi gwahaniaethol ar gyfer nwyddau mwy gwyrdd?

## PENNOD 5: Y ffordd ymlaen a chyfrifoldebau i gyflawni

C37 Beth allai'r cyhoedd ei wneud, yn eich barn chi, i sicrhau eu bod yn taflu llawer llai o wastraff i'r bin sbwriel domestig a sut gellid eu hannog yn hynny o beth?

C38 Ydych chi'n meddwl y dylai fod yn orfodol i awdurdodau lleol bennu cyfansoddiad eu gwastraff dinesig?

C39 Ydych chi'n cytuno bod angen cyd-lynnu'r help a roddir i fusnesau yng Nghymru i gynhyrchu llai o wastraff ac a oes gennych farn ar y ffordd orau i wneud hynny?

C40 Beth yw eich barn am y pecynnau cefnogi i helpu busnesau i gynhyrchu llai o wastraff a amlinellwyd ym Mlychau 5.7 a 5.8?

C41 Ydych chi o blaid ymgyrch lleihau gwastraff sy'n targedu'r sector cyhoeddus?

C42 Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer prosiectau ailddefnyddio deunydd pecynnu yng Nghymru?

C43 Ydych chi o blaid sefydlu cynllun ymwybyddiaeth am wastraff yng Nghymru a sut dylai'r cynllun hwnnw weithio, yn eich barn chi?

C44 Ydych chi'n cefnogi'r cynigion hyn ar gyfer addysgu am wastraff? Sut gellid eu gwella?

C45 Pa ddulliau eraill y gallai'r Cynulliad eu defnyddio i farchnata'r strategaeth?

C46 Pa ffactorau eraill y mae angen ymchwilio iddynt a sut gellid gwneud hynny?

C47 Pa ddeddfwriaeth wastraff yr hoffech ei gweld yn cael ei hadolygu a pham? A ellwch awgrymu ffyrdd o'i symleiddio neu'i gwella?

C48 Pa arweiniad ychwanegol ar arfer gorau deddfwriaeth gwastraff a rheoli gwastraff yr hoffech ei gael?

C49 Pa gamau eraill y dylid eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â phroblem ysbwriel yn eich barn chi?

C50 Beth arall ddylai'r Cynulliad ei wneud yn eich barn chi er mwyn sicrhau y caiff y broses o weithredu'r strategaeth ei harwain yn effeithiol?

C51 Pa gyfraniad pellach y gallai awdurdodau lleol ei wneud tuag at ddatblygiad cynaladwy, yn eich barn chi?

C52 Pa gyfraniad arall yr hoffech i'r WDA ei wneud tuag at ddatblygiad cynaladwy?

C53 Beth yw prif swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o safbwynt helpu Cymru i reoli'i gwastraff mewn ffordd gynaladwy, yn eich barn chi?

C54 Ydych chi o blaid y cynigion hyn gan Lywodraeth y DU ar gyfer gweithredu ac oes gennych unrhyw gynigion eraill yr hoffech eu hychwanegu atynt?

C55 Beth yw'ch barn chi am y rhwystrau posibl y byddai efallai'n rhaid eu goresgyn?

## PENNOD 6: Pwyso a mesur effeithiau a chanlyniadau'r strategaeth

C56 Ydych chi o blaid y dull hwn o asesu effeithiau'r strategaeth wastraff ar iechyd? Oes unrhyw ffactorau eraill sy'n ymwneud ag iechyd y dylid eu hystyried wrth ddod i benderfyniadau ynglŷn â'r strategaeth yn eich barn chi?

# YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Croesewir eich sylwadau ar y ddogfen ymgynghorol a dylech eu hanfon i'r cyfeiriad isod erbyn 5 Hydref 2001.  Dylech gyfeirio'ch sylwadau at:


David Holbrook
Cangen Polisi Gwastraff
Isadran Gwarchodaeth Amgylcheddol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Tel: (029) 2082 3213
Fax: (029) 2082 3658
E-mail: environmental.protection.division@wales.gsi.gov.uk


Bydd yr ymatebion a ddaw i law ar gael i'r cyhoedd eu hastudio.  Os hoffech gadw'ch sylwadau'n gyfrinachol, dylech nodi hynny'n eglur yn eich ymateb.